# tafod elái

RHAGFYR 2023

Rhif 383

Pris £1







Parti'r Twmiaid yn Nathliadau Nadolig Merched y Wawr y Rhanbarth (Tuudalen 14)

Y Gwynfydau oedd ysbrydoliaeth cyfansoddiad newydd gan Eilir Owen Griffiths a berfformiwyd gan gôr Capel Bethlehem, Gwaelod y Garth ar 26ain Tachwedd. Gofynnwyd i feirdd y capel greu cerddi yn seiliedig ar adnodau o'r Gwynfydau a phlethwyd y saith gerdd i gerddoriaeth hyfryd.

Cyflwynwyd pob cerdd gan Lefarydd a'u perfformiwyd gan y Côr o dan arweiniad Eilir Owen Griffiths, y Soprano Celyn Stewart, y Tenor Gwern Williams, Piano Branwen Evans a Cello Claudine Cassidy. Gyda lluniau addas wedi eu paratoi gan Anthony Evans.



Llongyfarchiadau enfawr i Ioan Minton, Blw 13 Ysgol Garth Olwg fu'n cynrychioli Cymru mewn gêm pêl-fasged rhyngwladol ym mis Tachwedd.

## Llwyddiant yng Ngŵyl Cerdd Dant Caerdydd 2023




Grŵp Llefaru Oedran Cynradd
1af Ysgol Creigiau



Parti Dawns Oedran Cynradd
1af Adran Bro Taf



Unawd Telyn Bl 7 - 11
1af Erin Fflur Jardine



Stepio Unigol i Fechgyn
1af Morus Caradog Jones

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd*

**Diolch arbennig i holl ohebwyr a dosbarthwyr Tafod Elái am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn**

# tafod elái


*GOLYGYDD*
*Penri Williams*
*029 20890040*

*CYHOEDDUSRWYDD*
*Colin Williams*
*029 20890979*

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Chwefror
i gyrraedd erbyn
26 Ionawr 2024

**Y Golygydd**
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
**e-bost**
pentyrch@tafelai.com

*Tafod Elái ar y wê*
**http://www.tafodelai.cymru**

*Argraffwyr:*
EVANPRINT
*www.evanprint.co.uk*



CYMRAEG

*Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*


## CLWB Y DWRLYN

**Canu Plygain**
**7.00yh**
**yn Eglwys Pentyrch**

**Y Fari Lwyd**
**8.30yh y King's Arms**

*Nos Iau,*
*11 Ionawr*

**Manylion oddi wrth:**
**clwbydwrlyn@pentyrch.cymru**

## CYLCH CADWGAN

**Emlyn Davies,**
**'Y ddau gochyn'**

**Nos Wener 26 Ionawr**
8.00 o'r gloch
Y Ganolfan, Tabernacl,
Efailisaf

*Cydnabyddir nawdd*
*Llenyddiaeth Cymru*





**Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro**

## Andrew Reeves

**Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes**

**Ffoniwch**

**Andrew Reeves**
**01443 407442**
**neu**
**07956 024930**

**I gael pris am unrhyw waith addurno**



# Ar drywydd llên yn Rhondda Cynon Taf - 2

**Pontypridd**

Ar ôl cydymdeimlo â bardd 'Coed Glyn Cynon' y tro diwethaf, dyma wibio ymlaen i Bontypridd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg (19g). Bellach, mae diwydiant, a'r Saesneg, wedi hen ddechrau cael gafael ar loriau'r dyffrynnoedd.

Roedd pont enwog William Edwards wedi ei chwblhau ym Mhont-y-tŷ-pridd erbyn 1756. Yn 1815 cynhaliodd Iolo Morganwg Orsedd gynnar ger y Maen Chwyf ac, erbyn yr 1850au, roedd y boblogaeth wedi cynyddu, ond y Gymraeg yn dal yn gryf. Dyma'r cyfnod y cyfansoddwyd 'Hen Wlad fy Nhadau', y geiriau gan Evan James, a'r alaw, 'Glanrhondda' gan ei fab, James James.



Y copi hysbys cynharaf o 'Hen Wlad fy Nhadau', LlGC

Mae'n werth tynnu sylw at eiriau'r trydydd pennill, sy'n dangos bod Cymry gwladgarol yn ymwybodol iawn o'r wasgfa fawr oedd yn bygwth y Gymraeg yn yr ardal bellach, ond eu bod hefyd yn benderfynol y byddai'r iaith a'i diwylliant yn goroesi:

> Os treisiodd y gelyn fy ngwlad dan ei droed,
> Mae hen iaith y Cymry mor fyw ag erioed,
> Ni luddiwyd yr awen gan erchyll law brad,
> Na thelyn berseiniol fy ngwlad.

Ac yn wir, yn y cyfnod hwn, roedd Pontypridd yn fwrlwm o weithgarwch llenyddol. Yn 1843 ganed William Glanffrwd Thomas. Digon tlawd oedd ei deulu – mae'n sôn mewn un man am ei dad-cu ar noson feddw yn gwerthu, am ugain punt, les ar dir a oedd i fod yn eiddo i'r teulu 'tra rhedai dŵr yn afon Cynon'. Ond roedd Glanffrwd yn ddyn ifanc uchelgeisiol: gweithiodd yn galed er mwyn talu am addysg, a dod yn weinidog ar Siloam, MC, y Gyfeillion ger Pontypridd. Erbyn hynny, roedd wedi dechrau barddoni, a bu'n eithaf llwyddiannus mewn eisteddfodau yng nghymoedd Rhondda a Chynon. Trodd at Eglwys Loegr a threulio'r rhan fwyaf o weddill ei fywyd yn ficer yn Llanelwy. Daeth yn fardd-bregethwr hynod boblogaidd ac yn olygydd am gyfnod ar y misolyn *Llusern y Llan.* Enillodd nifer fawr o wobrau eisteddfodol cenedlaethol a thaleithiol am bryddestau a dychangerddi a thraethodau, a chyfrannai erthyglau'n gyson i wahanol gyhoeddiadau. Erthyglau ganddo i *Tarian y Gweithiwr* am ardal Llanwynno oedd y sail i *Plwyf Llanwynno, yr Hen Amser, yr Hen Bobl, a'r Hen Droion,* 1888, llyfr yn tynnu sylw at y newid aruthrol a fu yn y cymoedd hyn o ganlyniad i'r chwyldro diwydiannol.

Mae'n debyg ichi glywed am Glic y Bont, dyrnaid o feirdd a oedd yn cwrdd yn y cyfnod hwn yn nhafarn y Llanofer ym Mhontypridd. Bu cryn dynnu coes rhwng cymeriad o'r enw Mabonwyson ac eraill fel Myfyr Morgannwg, Dewi Wyn o Essyllt a Dewi Haran. Myfyr Morgannwg (Evan Davies) a gododd y cylch mewnol o gerrig y tu mewn i gylch Iolo Morganwg ac o gwmpas y Maen Chwyf. Yn ôl y *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, gol. Meic Stephens, 1997, 'nid oedd yr un o'r rhain yn feirdd mawr, ond yr oedd eu cylch yn nodweddiadol o'r ysgolion barddol a flodeuai yn ne-ddwyrain y Gymru ddiwydiannol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg'.

Bydd gan rai ohonoch sy'n cofio Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Taf-Elái, 1991, yr eisteddfod a fu'n sbardun i'r Fenter Iaith, gopi ar eich silffoedd o *Rhwng Dwy Afon,* gol. Dafydd Pretty. Yno mae ysgrif am 'Glanffrwd a "Chlic y Bont"' gan Dafydd Wyn Morse, lle cewch lawer rhagor o wybodaeth ddifyr am y cyfnod hwn.

Ymlaen â ni y tro nesaf i'r ugeinfed ganrif, a rhai o lenorion y Cylch Cadwgan gwreiddiol.

***Glenys Mair Roberts***

# Clwb y Bont

Pwy feddyliai pan sefydlwyd Clwb y Bont ddeugain mlynedd yn ôl y byddai'r hen adeilad yma o hyd, yn parhau i fynd o nerth i nerth ac yn troi tudalen hyderus newydd wrth edrych at 2024. Mae cynlluniau uchelgeisiol newydd ar y gweill o ran digwyddiadau, a chyn bo hir cyhoeddir cynlluniau am welliannau arwyddocaol pellach i'r adeilad. Y cyfan er mwyn sicrhau y bydd y clwb yn cyrraedd disgwyliadau cynulleidfa heddiw, wrth barhau i fod wrth galon Cymry Cymraeg a di-gymraeg yr ardal fel ei gilydd.

Yn ddiweddar cyflogwyd dau aelod o staff newydd, y naill yw Aled Wyn Phillips sy'n gweithredu fel swyddog datblygu ac yn cynllunio rhaglen o ddigwyddiadau amrywiol fydd yn arwain at yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst; a'r llall yw Alaw Griffiths, swyddog cyfathrebu'r clwb fydd yn canolbwyntio ar greu llais unigryw i'n cymuned wrth ymgysylltu â chynulleidfaoedd hen a newydd.

Fel rhan o'r rhaglen o ddigwyddiadau hanner cyntaf 2024, mae tipyn o gyffro yn barod gan y byddwn yn croesawu i'n llwyfan yn y Bar Cefn rhai o artistiaid amlycaf Cymru yn cynnwys Dafydd Iwan, Bronwen Lewis, Elin Fflur a Lowri Evans; ac yn y bar bach byddwn yn parhau i gynnal nosweithiau llai ffurfiol a chynnes.

Gyda nosweithiau jazz o safon, gigs penodol i'r 6ed, nosweithiau ffilm arbenigol yn cynnwys Gŵyl Animeiddio Caerdydd ar Daith a sgwrs gyda chyfarwyddwr Twin Town, 25 mlynedd ers cyhoeddi'r ffilm eiconig, gweithgarwch penodol i deuluoedd a phlant, digwyddiadau stand-yp Cymraeg newydd ac ail gyflwyno'r cwisiau misol dwyieithog, yna'r bwriad yw anelu at greu bwrlwm o'r newydd ar ein hen aelwyd.

Rydym yn hynod ddiolchgar i'n holl wirfoddolwyr; ond wrth ddatblygu, rydym hefyd yn awyddus i recriwtio mwy o unigolion i ymuno â'r tîm. Pobol o bob oed a chefndir sy'n credu yng ngwerthoedd y Clwb ac sy'n barod bob hyn a hyn i dorchi llewys wrth helpu tu ôl i'r bar, goruchwylio wrth y drws, helpu'n dechnegol neu'n ymarferol gyda chynnal a chadw'r adeilad neu cynnig syniadau am weithgareddau cyffrous i'r dyfodol.

Byddwn yn parhau i bartneriaethu gyda chymdeithasau a lleoliadau eraill yn y dalgylch, ac wrth gwrs byddwn yn cydweithio'n agos gyda phwyllgorau apêl lleol yn ogystal â staff yr Eisteddfod Genedlaethol yn ganolog i gyflawni ein gweledigaeth yn y misoedd sy'n arwain at y Brifwyl ym Mharc Ynys Angharad.

Felly peidiwch â bod yn swil nac yn ddieithr, galwch heibio am sgwrs, lle edrychwn ymlaen yn fawr i godi llwnc destun a'ch croesawu i Glwb y Bont.

Aled Wyn Phillips
Swyddog Datblygu

# EFAIL ISAF

*Gohebydd Lleol:*
*Loreen Williams*

**Sioe Ffasiwn**
Cynhaliwyd Sioe Ffasiwn lwyddiannus iawn yng Nghanolfan Garth Olwg nos Iau, Tachwedd 16eg. Arddangoswyd gwisgoedd smart o Siop Calan, Rhiwbeina gan chwech o fodelau gosgeiddig iawn. Daeth nifer dda iawn i gefnogi'r sioe ac fe godwyd £1,400 i goffrau Eisteddfod Genedlaethol 2024. Diolch yn arbennig i Beti Treharne am drefnu noson mor llwyddiannus.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau gwresog i Siân Elin sydd newydd ddod yn fam-gu am y tro cyntaf. Ganwyd Jac i Geraint a Natalie ar Dachwedd 13eg.

**Brysia Wella**
Dymunwn yn dda i Eirian Rees, Penywaun a dreuliodd gyfnod yn yr ysbyty yn ystod y mis. Brysia wella – rydym yn gweld dy eisiau yn yr Oedfaon yn Y Tabernacl ar fore Sul.

**Llongyfarchiadau a Chroeso**
Llongyfarchiadau i Mathew a Lowri Rees ar enedigaeth eu mab bach, Gruff. Mae'r teulu wedi symud nôl i'r ardal o Gilfynydd ac wedi ymgartrefu yn Nyffryn y Coed. Croeso cynnes i chi eich tri.

**Cyngerdd "Un Seren"**
Cynhaliwyd cyngerdd yng nghwmni Delwn Siôn a Chôr Caerdydd yng Nghapel y Tabernacl, dydd Sul, Rhagfyr 3ydd. Trosglwyddwyd elw'r noson i goffrau'r Pwyllgor Lleol sy'n codi arian ar gyfer Eisteddfod 2024. (Lluniau tudalen 24)

**Sesiwn Nadolig**
Cynhaliwyd noson o ganu yn Y Carpenters nos Sadwrn cyntaf mis Rhagfyr wrth i dymor y Nadolig nesáu. Daeth nifer â'u hofferynnau cerdd a bu'n noson hwyliog iawn. Casglwyd tuag at Eisteddfod 2024.

**Canu Carolau yn y Pentref**
Dyma gyfle arall i gantorion! Bydd cyfle i ganu carolau o amgylch y pentref nos Lun, 18fed o Ragfyr. Cewch gyfarfod tu allan i'r Capel am 6 o'r gloch a bydd cyfle i chi gael mins pei a diod ar ddiwedd y noson yng Nghanolfan y Tabernacl. Bydd yr arian a gesglir yn mynd tuag at achosion da.

**Cyngerdd Côr Godre'r Garth**
Cynhelir Cyngerdd blynyddol Côr Godre'r Garth yng Nghapel y Tabernacl nos Sul, Rhagfyr 17eg i ddechrau am 7 o'r gloch. Ceir eitemau gan aelodau o Gôr y Cwm.

**Ffair Nadolig y Pentref**
Cynhelir Ffair Nadolig yn Neuadd y Pentref ddydd Sul, Rhagfyr 10fed

**Cefnogi'r Eisteddfod**
Bydd noson arbennig yng Nghanolfan Garth Olwg gyda Mei Gwynedd a Band Tŷ Potas, nos Wener 2il Chwefror am 7.30yh. Tocynnau o'r Ganolfan.

**Y Tabernacl**
**Noson Gymdeithasol**
Cynhelir Noson Gymdeithasol yn Neuadd y Pentref nos Wener, Rhagfyr 8fed am 6.30 yr hwyr. Bydd y noson yn gyfle i'r aelodau hŷn gyfarfod â rhieni a phlant yr Ysgol Sul ac aelodau'r Twmiaid. Bydd yn gyfle i gymdeithasu a dod i adnabod ein gilydd.

**Diolch i Eleri**
Mae Eleri Huws wedi penderfynu rhoi'r gorau i'w chyfraniad fel cyfeilydd yn yr Oedfaon Boreol yn y Tabernacl. Roeddwn i wrth fy modd yn gwrando ar ddatganiadau Eleri ar y piano cyn, ac yn ystod yr Oedfa, ond 'dyw iechyd Eleri heb fod yn rhy dda ers tro. Mi gyflwynodd Iwan Rowlands, Cadeirydd y Bwrdd dusw o flodau i Eleri fel arwydd o werthfawrogiad yr aelodau, ac mi wnaeth ei chyd-gyfeilyddion rhoi rhodd fach iddi.

**"Caniadaeth y Cysegr"**
Llongyfarchiadau i Emlyn Davies a fu'n dewis a chyflwyno amrywiaeth o emynau ar gyfer y rhaglen Caniadaeth y Cysegr fore a phrynhawn Sul Tachwedd 19eg. Cafodd gyfle wrth gyflwyno un o'r emynau i sôn am y gweithgaredd elusennol sydd yn digwydd yn Y Tabernacl.

**"Fydd, Gobaith, Cariad"**
John Llewelyn Thomas, arweinydd Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol yr Eglwys oedd un o brif siaradwyr Cyfarfod Blynyddol Cristnogaeth 21. Fe greodd argraff ddofn wrth ddisgrifio'r gwaith a wneir yn Y Tabernacl i helpu'r sawl sydd ar fin symud i'w cartref eu hunain ar ôl treulio cyfnod mewn hostel neu'n ddigartref. Ar y bore Sul canlynol bu'n siarad eto ar y rhaglen radio "Bwrw Golwg" gan sôn am gydweithio gyda phartneriaid elusennol ynghyd â chroesawu aelodau'r gymuned ehangach i ymuno yn y gwaith. Mae diolch yr aelodau i John am arwain yn Y Tabernacl i ddangos gwir ystyr gweithredu mewn Ffydd, Gobaith a Chariad.

**Casgliadau'r Nadolig**
Bydd aelodau'r Tabernacl a'u ffrindiau yn ceisio dwyn ychydig o gysur a llawenydd y Nadolig i bobol sy'n wynebu problemau dwys yr adeg yma o'r flwyddyn. Byddwn yn casglu danteithion Nadoligaidd a nwyddau hylendid i'w dosbarthu i loches Cymorth i Ferched a hosteli ar gyfer pobl ddigartref yn yr ardal. Yn ogystal byddwn yn casglu rhoddion ariannol er mwyn rhoi 30 o docynnau gwerth £25 i bobl ifanc sy'n gadael gofal.

Bydd y Capel ar agor bob bore Iau a Sadwrn rhwng 10 a 12 o'r gloch i dderbyn rhoddion.

**Merched y Tabernacl**
Bu aelodau Merched y Tabernacl yn canu carolau yng Nghartref Gofal Penrhos yn Llanilltud Faerdref brynhawn Gwener, Rhagfyr 1af.

**Croeso**
Braf yw gweld rai o gyn-aelodau Capel Sardis Pontypridd yn ymuno â'r gynulleidfa yn y Tabernacl ar fore Sul. Croeso cynnes iawn i chi a dewch a'ch ffrindiau gyda chi o Bontypridd.

**Dewis Cyfarwyddwyr Newydd**
Daeth cyfnod dau o aelodau Bwrdd y Cyfarwyddwyr i ben wedi tair blynedd o wasanaeth ffyddlon. Byddwn yn ffarwelio â Bethan Guilfoyle a Hefin Gruffudd gan ddiolch iddynt am eu gwaith. Mae Helen Middleton ac Iwan Rowlands wedi dewis parhau ymlaen am flwyddyn arall. Etholwyd Alun Wyn Bevan a Caroline Rees yn aelodau newydd. Daeth tymor Iwan Rowlands i ben fel Cadeirydd y Bwrdd hefyd ac mae aelodau'r Tabernacl am ddatgan eu diolch diffuant iddo am ei waith trylwyr.

**Merched y Wawr**
Cafwyd Gwasanaeth Nadolig hyfryd yn Y Tabernacl brynhawn Sul, Tachwedd 26ain gan Ferched y Wawr, Rhanbarth y de Ddwyrain. Cangen Tonysguboriau oedd wedi trefnu'r gwasanaeth ac mi ddaeth nifer fawr o aelodau ynghyd. Trefnwyd paned a lluniaeth ysgafn yn y Ganolfan ar ôl yr Oedfa. Cafwyd casgliad ar ddiwedd y Gwasanaeth tuag at Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf.

**Oedfaon Mis Rhagfyr ac Ionawr**
Rhagfyr 3ydd Geraint Rees
Rhagfyr 10fed Y Parchedig Aled Edwards
Rhagfyr 17eg Cyflwyniad Nadolig Plant yr Ysgol Sul a'r Twmiaid
Rhagfyr 24ain Ni fydd oedfa yn y Bore. Gwasanaeth Carolau Noswyl Nadolig am 5.30 yr hwyr.
Rhagfyr 31ain Allan James

Ionawr 7fed Oedfa Gymun o dan ofal Ann ac Emlyn Davies
Ionawr 14eg Y Parchedig Aled Edwards
Ionawr 21ain Achlysur arbennig i bob oed
Ionawr 28ain Rhiannon Humphreys

# PENTYRCH

*Gohebydd Lleol:*
*Marian Wynne*

**Wythnos y Bwganod**
Wythnos hanner tymor yr hydref yw Wythnos y Bwganod ym Mhentyrch. Mae'r gystadleuaeth flynyddol bellach wedi ennill ei phlwy ac eleni eto gwelwyd teuluoedd o bell ac agos yn crwydro'r pentref gan ryfeddu at greadigrwydd rhai o'r pentrefwyr. Y thema oedd Ffilm a Theledu a gwelwyd campweithiau yn ymddangos tu allan i'r tai.



Ymddangosodd Y Titanic ar un dreif, Gremlins swnllyd mewn bin gwyrdd oedd â'i sbwriel heb ei gasglu ers misoedd ac ysbrydion a Spidermen yn hongian o goed a thoau'r tai. Noddir y gystadleuaeth gan Ganolfan Arddio Pugh's a bydd yr arian a gasglwyd eleni yn mynd tuag at oleuadau i harddu'r pentref dros gyfnod y Nadolig. Yr enillwyr eleni oedd Catrin Finch a'r teulu gyda chreadigaeth liwgar yn dynodi'r ffilm “UP” Llongyfarchiadau iddyn nhw!



**CLWB Y DWRLYN**
**Huw Llywelyn yn holi Helen Prosser**
Wrth i Huw holi Helen yn ei ffordd ddeheuig arferol cafodd y gynulleidfa niferus ddarlun cynnes o'i hanes, o'i phlentyndod yn Nhonyrefail tan heddiw a hithe yn wynebu'r her o fod yn



Huw Llywelyn Davies, Helen Prosser a Marian Evans, Cadeirydd Clwb y Dwrlyn

Gadeirydd Eisteddfod Rhondda Cynon Taf.

Wedi ei chodi mewn cartref di-Gymraeg cawsom ddarlun byw o Helen yn magu diddordeb a hyder yn y Gymraeg. Soniodd iddi ddefnyddio'r iaith mewn siop am y tro cynta wrth brynu record yn Siop y Pentan. Dyna'r eglurhad am ei dewis o gerddoriaeth – Yr Hen Ffordd Gymreig o Fyw.

Ymlaen wedyn i brifysgol Aberystwyth a'r sioc o sylweddoli, “Everything is Welsh” yn Neuadd Pantycelyn – cyn magu hyder a brwydro dros yr iaith fel aelod o Gymdeithas yr Iaith. Arweiniodd hyn at Helen yn cael ei charcharu a phrofi unigrwydd enbyd y carchar.

Clywsom sut roedd wedi elwa o waith a gweledigaeth pobl fel Chris Rees, Hywel Teifi, Ffred Ffransis a Colin Williams – pobl a ddaeth yn arwyr iddi wrth i Helen ei hun droi at faes y dysgwyr a hithau yn ei thro yn ysbrydoliaeth i gymaint ohonynt. Pwysleisiodd gymaint oedd ei hedmygedd o'r rhai oedd yn ymroi i ddysgu'r iaith gan werthfawrogi nad oedd gan bawb yr un ddawn ieithyddol ond rhaid oedd parchu ymdrech pob un ohonynt a'u helpu i ddod i fwynhau'r Gymraeg. A dyma'r rheswm am ei hail ddewis o gerddoriaeth - Nant Gwrtheyrn.

Holodd Huw hi wedyn am yr her o gadeirio pwyllgor Gwaith Eisteddfod 2024 – gan gynnwys yr her o ddod o hyd i faes addas a chodi swm enfawr o arian. Pwysleisiodd mor bwysig oedd sicrhau bod yna groeso i bawb o drigolion Rhondda Cynon Taf er mwyn iddynt fwynhau'r Eisteddfod a'r iaith.

Cyflwynwyd siec o £500 ar ran Clwb y Dwrlyn i'r gronfa ac fe werthwyd gwerth £300 o docynnau raffl. Mae brwdfrydedd ac agwedd bositif Helen yn heintus ac er mor anodd yw codi'r arian roedd yn sicr bod y gefnogaeth yno. Noson arbennig gan berson arbennig. Diolch i Huw am holi ac i Helen am ei didwylledd wrth ateb.

**Llongyfarchiadau anferth, Mabli**
Ym Mis Hydref, yn Ysgol Plasmawr, enillodd Mabli Rogers gystadleuaeth Canwr y Flwyddyn! Cystadleuaeth ar gyfer disgyblion blynyddoedd 7, 8 a 9.

Roedd Siwan Henderson a Meinir Richards yn beirniadu. Da iawn ti. Y West End nesa!

## Apêl yr Urdd i gynnig gwyliau haf i 250 o blant difreintiedig

Gydag ystadegau yn dangos fod 30% o blant Cymru bellach yn byw mewn tlodi, mae'r Urdd yn ail-lansio apêl er mwyn sicrhau bod rhai o blant a phobl ifanc fwyaf difreintiedig Cymru yn cael gwyliau yn 2024.

Ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Plant (20 Tachwedd 2023), mae'r Urdd yn galw ar unigolion, cwmnïau a chymdeithasau i gyfrannu at gynllun '**Cyfle i Bawb – Cronfa Gwersyll Haf yr Urdd**'. Bwriad y gronfa yw cynnig gwyliau i 250 o blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi neu dan amgylchiadau heriol.

Bob haf ers 2019 mae'r Gronfa wedi galluogi i gannoedd o blant a phobl ifanc difreintiedig i fwynhau gwyliau yng ngwersylloedd yr Urdd. Byddai nawdd o £180 yn cyfrannu at gost gwyliau i un plentyn neu berson ifanc ar Wersyll Haf yng Nglan-llyn, Llangrannog, Pentre Ifan neu Gaerdydd. Mae'r apêl wedi'i groesawu gan rieni'r rheiny fynychodd Wersyll Haf eleni drwy nawdd Cronfa Cyfle i Bawb.

Meddai un rhiant, Cerian Rolls o Aberdâr: “Dim ond drwy'r Gronfa oedd hi'n bosib i fy mab fynychu ei gwrs preswyl gyntaf erioed. Cafodd yr amser gorau, gwnaeth llawer o ffrindiau newydd.”

“Mae'r argyfwng costau byw nid yn unig yn rhoi straen ariannol ar deuluoedd, ond yn effeithio iechyd emosiynol a gweithgarwch corfforol plant a phobl ifanc, hefyd,” meddai Siân Lewis, Prif Weithredwr yr Urdd.

“Eleni, derbyniodd yr Urdd y nifer fwyaf erioed o geisiadau gan rieni ac ysgolion ers sefydlu ein Cronfa Cyfle i Bawb, ac rydym mor ddiolchgar i bawb a wnaeth hi'n bosibl i ni gynnig gwyliau i dros 100 o blant yn ein gwersylloedd haf.

Fel sefydliad ieuenctid cenedlaethol rydym yn gyson chwilio am ffyrdd i sicrhau nad yw sefyllfa ariannol teulu yn golygu bod rhaid i blentyn golli cyfle.”

Bydd modd i rieni neu ysgolion wneud cais am wyliau ar ran plentyn yn fuan yn 2024.



# O DAN YR WYNEB

**Martin Huws sy'n holi Alwyn Harding Jones, awdur llyfr am anturiaethau ei Daid Rapa, gan gynnwys llongddrylliad ym Moroedd y De, pryderon am oroesi a threulio 46 diwrnod ar ynys bellennig.**

**Beth yw eich gwaith?**
Wedi ymddeol yn llwyr ers dros bum mlynedd ond cyn hynny roeddwn i'n bensaer yn arbenigo ar gadwraeth adeiladau hanesyddol fel Llanerchaeron, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ac ambell i eglwys hynafol ym Mro Morgannwg. Fe fûm yn ffodus dros ben i ffeindio'r maes y cefais i gymaint o fwynhad ynddo dros gyfnod o 40 mlynedd.



**Pa waith arall ydych chi'n wneud neu wedi ei wneud?**
Pan oeddwn i'n ifanc bûm yn gweithio fel tocynnwr bws ar hyd arfordir gogledd Cymru a chael cyfle i ddysgu llawer iawn am natur pobol, gan gynnwys y 'Kiss Me Quicks' (ymwelwyr diwrnod o ogledd Lloegr) a'r 'codwrs twrw' ar nos Sadwrn ym Mangor a Chaernarfon. Difyr iawn!

**O ble rydych chi'n dod?**
Cofi ydw i sef un wedi'i eni a'i fagu yn nhref hanesyddol Caernarfon. Ac yn hynod falch o hynny.

**Ble rydych chi'n byw nawr?**
Ym mhentref Ffynnon Taf ers dros 40 mlynedd bellach. Hefo golygfa braf o Fynydd y Garth. A dio ddim yn debygol yr aiff Angharad y wraig na mi oddi yma hyd nes bydd raid.

**Wnaethoch chi fwynhau eich addysg?**
Do, ar y cyfan. Saesneg oedd cyfrwng yr addysg uwchradd yng Nghaernarfon bryd hynny (heblaw am 'Welsh chwarae teg') ac, os cofia i'n iawn, dim ond dau neu dri o'r holl ddosbarth oedd ddim yn siarad Cymraeg. Mwynheais y chweched dosbarth unwaith ffeindiais i fy nhraed, rygbi a'm 'cariad' cynta! A sôn am yr heniaith, methiant fu'r ymgais i ddysgu gramadeg a phethau felly i mi - cefais radd 9 yn lefel O Cymraeg! Dim byd i fod yn falch ohono.

**Pwy oedd a phwy yw'r dylanwadau arnoch chi?**
Ar wahân i'r rhai amlwg fel fy rhieni a'm teulu agos fel Taid Rapa a'm gwraig Angharad, wrth gwrs, dau ganwr. Dafydd Iwan yw'r cynta, un o'r rhesymau pam dewisais i fynd yn bensaer. Pymtheg oed oeddwn i ond dwi'n ffodus fod ffawd o'm plaid. Ac mae'n edmygedd i o Dafydd heddiw, am resymau personol, yn fawr.


A dyna i chi Bob Dylan. Fo sy wedi fy nysgu i beidio trio plesio er mwyn plesio, a bod yn hyderus yn fy nghroen fy hun, beiau ai peidio. Diolch i chi'ch dau!

**Beth oedd y man cychwyn cyn sgrifennu'r gyfrol?**
Ers yn blentyn roeddwn i'n ymwybodol bod Taid wedi bod mewn llongddrylliad yng nghanol Môr y De ac wedi treulio amser ar ynys bellennig yn byw ymysg y brodorion. Ond dyna i gyd. Ac fel plentyn, yn rhyfedd iawn, doedd dim gormod o ddiddordeb. Wedi ymddeol, hefo mwy o amser ar fy nwylo, dechreuais i ymchwilio i'r hanes a digwydd sôn wrth gyd-edmygwr Bob Dylan, Lyn Ebenezer - a fo anogodd fi i sgwennu llyfr am yr hanes. Lyn, nid Bob.

**Beth yw sail y gyfrol?**
Wedi marwolaeth fy nhad tua 25 mlynedd nôl etifeddais i gopi o ddyddlyfr y Capten John Hughes o Gaernarfon yn ysgrifen fy nhaid. Dyddlyfr oedd hwn yn cofnodi hanes llongddrylliad y barc *Inverness*, taith o 670 milltir mewn bad achub agored dros gyfnod o saith niwrnod a'r bywyd o ddydd i ddydd ar ynys fechan Rapa. Yn y bôn, stori am bobol yn wynebu pob math o heriau ydi sail y gyfrol.

**Pam sgrifennu'r gyfrol? Beth yw'r amcanion?**
Roedd rhaid. Nid fi sydd biau'r hanes - mae'n perthyn i ni gyd fel teulu ond fi ydi ceidwad y llyfr. Y prif amcan yw cofnodi'r hanes rhyfeddol ar gyfer y cenedlaethau sy'n dilyn.

**Faint o ymchwil oedd angen? Beth oedd y broses?**
Ar wahân i'r dyddlyfr oedd yn cofnodi pethau fel y digwyddon nhw yn 1918, fe gefais i wybodaeth am ffordd o fyw'r Rapiaid yn ystod y cyfnod gan ddau anthropolegydd oedd wedi treulio amser




ar yr ynys yn astudio'r brodorion a'u harferion: un athro wedi ymddeol o Kansas UDA a'r llall yn athro o'r Swistir. Hefyd, fe gefais i gymorth y Bishop Museum yn Honolulu sy'n gwarchod hanes ynysoedd y Polynesia-Ffrengig. Oherwydd brwdfrydedd amlwg pob un sy'n gysylltiedig â'r ynys hynod hon, roedd un cysylltiad yn arwain at y llall, gan orffen heddiw gyda merch ifanc gafodd ei magu ar yr ynys, Takurua Parent.

**A ddaethoch chi o hyd i wybodaeth newydd?**
Do, yn wir. Llawer iawn, ond un sy'n dod i'r cof ydi hanes y Ffrancwr George Damble, un o'r criw. Wedi iddo niweidio ei goes yn ddrwg wrth adael y llong ddrylliedig bu Damble farw o'r madredd pan oedd ar yr ynys. Er mwyn dangos ei werthfawrogiad i Taid Rapa am helpu'r capten drin ei goes yn ddyddiol (a honno'n drewi'n ddrwg erbyn y diwedd), gadawodd arian iddo mewn banc yng Nghaerdydd. Hyn yn deud llawer am fy nhaid.

**Beth oedd y mwynhad mwya a'r heriau mwya?**
Heb os, y mwynhad mwyaf oedd bod mewn cysylltiad hefo unigolion â diddordeb a chariad angerddol at yr ynys fechan hon a'i phobol (ychydig dros bum cant sy'n byw yno erbyn heddiw). Fedra i ddim meddwl am heriau - roedd yn daith bleserus.

**Pa fath o gymeriad oedd Taid Rapa?**
Dyn caled, plaen ei dafod ond teg iawn oedd Taid Rapa. Dim ffrils o'i gwmpas. Dyn oedd wedi dysgu am fywyd gan ei dad yntau oedd yn warder yng ngharchar Caernarfon yn ystod y 1890au.

**Soniwch am rai o'i brofiadau difyr a doniol**
Bydd rhaid i chi ddarllen y llyfr!

Parhad tudalen 7 >

## O Dan yr Wyneb (Parhad)

**Pa wersi wnaeth Taid Rapa eu dysgu?**
Pan yn llongwr ifanc, un o'r gwersi mwyaf ddysgodd o oedd yr angen i barchu'r môr a'i nerth rhyfeddol. Ac mi fyddai popeth arall yn dilyn o hynny.

**Ble yn union mae Rapa?**
Roedd fy nain arfer deud mai'r trwbl hefo Llundain oedd ei bod ymhell o bob man. A hithau'n byw yn nhref Caernarfon. Mae'r un peth yn wir am ynys Rapa, neu Rapa Iti, ei henw llawn. Mae yng nghanol y môr tua hanner ffordd rhwng Seland Newydd ac ochor orllewinol De America.

**Pe bai'n fyw, pa gwestiynau hoffech chi ofyn iddo fe?**
Hefo ymhell dros ugain o wyrion ac wyresau, pam mai fi gafodd y cyfrifoldeb o warchod y dyddlyfr? A be' ddigwyddodd i'r het wellt?

**Pa gyngor fyddech chi'n rhoi i awdur newydd?**
Cyn dechrau sgwennu, mynnwch air hefo awdur profiadol i gael arweiniad cychwynnol. Os yn bosib un â gradd sy'n well na gradd 9 lefel O Cymraeg. Felly am ddau reswm, sori, fedra i ddim eich helpu.

**Disgrifiwch eich hoff bryd bwyd**
Popoi, sef y planhigyn taro wedi'i drin a'i goginio oedd 'staple diet' fy nhaid yn ystod ei arhosiad ar yr ynys. Pysgodyn yw fy hoff fwyd i, a hwnnw mewn cytew hefo sglodion a phys 'on the side' os yn bosib. Heb anghofio'r bara surdoes a menyn Cymreig. A gwydraid bach o win gwyn i'w olchi lawr.

**Beth yw eich hoff weithgareddau amser hamdden?**
Teithio hwnt ac yma yn y 'camper' hefo Angharad mor aml â phosib yw'r prif ddiddordeb. Ond, yn anffodus, wnaiff honno (y 'camper,' nid Angharad) ddim mynd â ni'n agos at ynys Rapa.

**Dolen Gwales: https://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781845278694&tsid=4**
**Rapa: Anturiaethau Cymro Ifanc ym Moroedd y De, Gwasg Carreg Gwalch, £8.50**

***Bydd lansiad yn yr Eglwys Norwyaidd yng Nghaerdydd ar Ionawr 17***

# LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN

Gohebydd y Mis: Allan James

Yn rhifyn Tachwedd o Tafod Elái, cyfeiriwyd at ddarlith yr Athro Prys Morgan a fu'n hel atgofion am gyfnod ei blentyndod yn ardal Radyr a Gwaelod y Garth. Cyflwynwyd darlun o gyfnod a oedd yn dyst i gof arbennig y darlithydd ond bod yr aneirif atgofion wedi'u cynnwys o fewn fframwaith a oedd ar yr un pryd yn ddadlennol ddifyr ac yn gyfraniad pwysig i ddathliadau capel Bethlehem, Gwaelod y Garth wrth ddathlu canrif a hanner o wasanaethu'r ardal. Hap a damwain, yn sgil y cyfarfod hwnnw, oedd i mi ailddarganfod erthygl yn dwyn y teitl 'The Golden Treasurer : F.T. Palgrave and the Cymmrodorion' a gyhoeddwyd yn nhrafodion y gymdeithas honno yn 2010 gan Yr Athro Prys Morgan. Unwaith eto, mae creu yn y cofio a'r cofio'n esgor ar rwydwaith o atgofion personol ynghyd â chyfeiriadau llenyddol a hanesyddol sy'n ymdoddi'n undod pleserus a chyflawn o fewn ffiniau'r ysgrif.



Man cychwyn yr erthygl oedd parti pen blwydd Elfed (Y Parch. Howell Elvet Lewis) yn 90 oed, parti a gynhaliwyd yn ei gartref ym Mhenarth yn 1950. Dim ond pedwar o westeion a oedd yn bresennol, sef yr Athro T.J. Morgan a'i wraig Huana ynghyd â'r ddau fab Rhodri a Prys a fu'n cofio'r achlysur. Dechreuasai Elfed ei yrfa fel gweinidog ym Mwcle (Sir Fflint) nepell o Gastell Penarlâg (Hawarden), cartref y Prif Weinidog, W.E. Gladstone, ac roedd gwraig gyntaf Elfed yn ferch i un o denantiaid yr ystâd. Hollol naturiol, felly, oedd i'r sgwrs droi i ystyried perthynas Elfed â Gladstone a'i wraig, ynghyd â rhai o'u gwesteion ym Mhenarlâg megis arglwydd Tennyson a Francis Turner Palgrave. Ymhlith ffrindiau Palgrave yr oedd Matthew Arnold a fu'n cydweithio ag ef yn y man yn Y Bwrdd Addysg dan gyfarwyddyd R.R.W. Lingen, sef y mwyaf beirniadol o'r tri comisiynydd a fu'n gyfrifol am yr adroddiad ar gyflwr addysg yng Nghymru yn 1847, yr adroddiad a arweiniodd at helynt 'Brad y Llyfrau Gleision'. Fodd bynnag, daeth Palgrave a Tennyson yn ffrindiau a phan oedd y ddau ar eu gwyliau yng Nghernyw bu i Tennyson ddwyn perswâd ar ei gyfaill i gasglu telynegion Saesneg gyda'r bwriad o'u cyhoeddi'n flodeugerdd. Cynhyrchwyd y gyfrol ar fyrder a'i chyhoeddi gan Macmillan dan y teitl 'The Golden Treasury' yn 1861 gan fwynhau llwyddiant ysgubol. Yn wahanol i Matthew Arnold, a oedd yn frwd dros astudiaethau Celtaidd, roedd gan Palgrave ddiddordeb didwyll yn yr iaith Gymraeg fel y cyfryw fel bod ei ferch Gwenllian wrth gofio am ei thad mewn cofiant iddo yn gallu datgan : 'My father was an exceptional instance of an Englishman who both read and spoke the Welsh language with considerable fluency'. Roedd yn aelod brwd o Gymdeithas y Cymmrodorion a cheir tystiolaeth iddo ddarlithio i'w haelodau ar o leiaf ddau achlysur, un ddarlith yn trafod ei ymweliad â Llyfrgell Ambrosiana ym Milan lle bu'n ceisio darganfod pwy oedd wedi argraffu Gramadeg Cymraeg Gruffydd Robert, y dyneiddiwr enwog, yn 1567.

I ddychwelyd at y parti a hanes Elfed. Yn y lle cyntaf, mae'n ddiddorol nodi i weddw Elfed, wedi ei farw yn 1953, gyflwyno ail argraffiad hardd o 'Golden Treasury' Palgrave i deulu'r Morgansiaid yn anrheg er cof am Elfed, cyfrol wedi'I llofnodi gan y golygydd ei hun. Amgaewyd, hefyd, lythyr at Elfed oddi wrth Palgrave yn 1891 o Lyme Regis yn swydd Dorset, yn diolch iddo am ei gyfieithiad o un o emynau Palgrave. Yn ail, cofnodir i Rodri droi at Elfed yn ystod y parti ym Mhenarth yn 1950 a gofyn iddo paham y dewisodd wahodd dau grwt ifanc i'w barti? Onid oedd ganddo ffrindiau mewn oed yn agosach at ei genhedlaeth ef? Ateb craff Elfed oedd iddo ddewis ei westeion yn ofalus fel bod rhywun yn gallu adrodd ei hanes yn yr unfed ganrif ar hugain!

Menter Caerdydd

**Gwledd o weithgareddau...**
*Gyda'r Nadolig – a diwedd 2023 – yn agosáu, hoffai pawb ym Menter Caerdydd a Menter Bro Morgannwg ddiolch i chi am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn. Dyma flas i chi o rai o'r gweithgareddau sydd wedi'u trefnu cyn y Nadolig, a'r cyrsiau newydd fydd yn dechrau yn gynnar yn 2024.*

**Nadolig Ddoe a Heddiw – prynhawn Gwener, 15 Rhagfyr, 5.30yp**
Dewch â'r teulu i Ysgol Bro Edern brynhawn Gwener, 15 Rhagfyr i fwynhau sioe Nadoligaidd i'r teulu cyfan. Yng nghwmni cast **Nadolig Ddoe a Heddiw** gan 'Mewn Cymeriad', awn ar daith hudolus drwy Nadoligau'r gorffennol trwy lygaid plentyn heddiw. Mae'r sioe yn cynnwys caneuon a dawnsio a'r tocynnau ar gael am £5 ar wefan Menter Caerdydd. https://mentercaerdydd.cymru/event/nadolig_ddoe_a_heddiw/24

Draw ym Mro Morgannwg, cynhelir Parti Nadolig ar y cyd â 'Dysgu Cymraeg y Fro' a 'Cymraeg i Blant' yng Nghanolfan Addysg Gymunedol Palmerston, Y Barri, brynhawn Gwener, 15 Rhagfyr rhwng 4.00 a 6.00yp. Yn ogystal â hwyl a sbri i'r plant lleiaf yng nghwmni Do Re Mi, bydd celf a chrefft, canu carolau ac ymweliad gan Siôn Corn! Mynediad yn rhad ac am ddim.

Cofiwch hefyd am sesiynau tymhorol 'Deffro'r Synhwyrau' yn Llyfrgell Penarth ar gyfer babanod a phlant bach sy'n dechrau bore Llun, 4 Rhagfyr. (Tair sesiwn am £15 – 4, 11, 18 Rhagfyr am 10.45-11.30yb. I gofrestru: menterbromorgannwg.cymru)

**Sgwrs y Mis**
**Nos Iau, 14.12.23, 7.30yh**
Yn sgwrs ola'r flwyddyn, 'Nodau'r Nadolig: Cerddoriaeth y Nadolig Cymreig', cawn ddysgu mwy am y wledd o gerddoriaeth sydd yng Nghymru i ddathlu'r Nadolig yng nghwmni'r cerddor a chyfansoddwr, Sioned Webb. Bydd cyfraniadau hefyd gan ŵr Sioned, y cerddor a'r canwr gwerin Arfon Gwilym, fydd yn sôn am draddodiadau'r Plygain. **Noder bydd cynnwys y sgwrs hon yn wahanol i sgwrs Sioned ac Arfon ar gyfer y Cymrodorion ar ddechrau'r mis.*

**Sgwrs y Mis**
**Nos Iau, 18.01.2 am 7.30yh**
Dr Rebecca Thomas, Darlithydd mewn Hanes Canoloesol ym Mhrifysgol Caerdydd, fydd yn ymuno â ni yng nghyfarfod cyntaf 2024 gyda sgwrs am **'Y Llychlynwyr yng Nghymru'** (nos Iau, 18 Ionawr, 7.30yh ar Zoom). Heddiw, fe gysylltir y Llychlynwyr gydag ymosodiadau a dinistr - ac yn wir, o'r 8fed ganrif hyd yr 11eg ganrif bu Prydain ac Iwerddon yn dioddef ymosodiadau di-ri. Ond roedd eu heffaith hefyd yn fwy pellgyrhaeddol. Bydd y sgwrs hon yn gosod Cymru yng nghanol y naratif ac yn ystyried pa effaith a gafodd y Llychlynwyr yma.

**Mewn Tiwn – bore Llun, 18.12.23, 11.30yb**
Ymunwch â ni yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbeina fore Llun, 18 Rhagfyr i ddathlu'r Nadolig yng nghwmni'r gantores/gyfansoddwraig o sir Benfro, Lowri Evans, sy'n rhan o gynllun Live Music Now. Bydd y gyngerdd yn dechrau am 11.30yb ond dewch yn gynnar i fwynhau paned a mins pei! Does dim angen tocyn ac mae'r mynediad yn rhad ac am ddim. Bydd y gyngerdd nesaf ar ddydd Llun, 26 Chwefror.

**Cymru'r Beirdd – prynhawn Mawrth, 16 Ionawr am 4 wythnos, 2.00yp**
Môr a mynydd, gwlad a thref – dewch i grwydro Cymru yng nghwmni ein beirdd. Mewn cwrs 4 wythnos ar Zoom, bydd yr Athro Christine James yn ein tywys trwy amrywiaeth o gerddi a ysbrydolwyd gan lefydd gwahanol. Croeso i chi ddod â brechdanau a fflasg gyda chi, ond fydd dim angen eich sgidiau cerdded ar gyfer y teithiau rhithwir a hamddenol hyn!

**Ymweliad â Sain Ffagan – bore Iau, 25.01.24**
Hoffech chi wybod mwy am draddodiadau Santes Dwynwen? Ar ddiwrnod y cariadon, dydd Iau, 25 Ionawr, byddwn yn cynnig ymweliad arbennig â Sain Ffagan a sgwrs arbennig am eu casgliad o lwyau caru yng nghwmni Uwch Guradur Bywyd Diwylliannol yr Amgueddfa Werin, Fflur Morse. Mae'r ymweliad, sy'n rhad ac am ddim, yn cael ei gynnal rhwng 10.30yb a 12.30yb ac mae niferoedd yn gyfyngedig i 15.

**Laffwyl – nos Iau, 25.01.24**
Ar noson Santes Dwynwen, beth am fynd ar ddêt i dafarn Parc Fictoria ar gyfer sesiwn nesaf Laffwyl? Yn diddanu'r gynulleidfa ar 25 Ionawr bydd y digrifwyr Carwyn Blayney, Caryl Burke, Geth Evans a Katie Gill-Williams.

**Mynediad am Ddim – nos Sadwrn, 27.01.24 – drysau'n agor am 6.30yh**
Angen rhywbeth i godi calon yn y flwyddyn newydd? Beth am brynu tocyn i weld un o grwpiau gwerin mwyaf poblogaidd Cymru ar noson gyntaf eu taith drwy Gymru? Mae tocynnau ar gyfer gig Mynediad am Ddim yn Y Barri ar gael ar wefan Canolfan y Celfyddydau Memo: https://memoartscentre.co.uk/Shows/mynediad-am-ddim/

**Ionawr: Gweithgareddau i'r Plant**
Cofiwch bydd y Clybiau Dawns a Drama yn dychwelyd am dymor newydd yn y flwyddyn newydd a Gweithdai Gwyddoniaeth SparkLab yn cael eu cynnal yn ysgolion Y Berllan Deg a Melin Gruffydd. Cadwch lygad ar y wefan hefyd ar gyfer ein Gweithdy Danteithion Dwynwen ar ddydd Sadwrn, 27 Ionawr gyda ryseitiau blasus i dwymo'r galon.

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda – edrychwn ymlaen at eich gweld chi cyn bo hir!*

**Gwefan: mentercaerdydd.cymru**
**Facebook: @m.caerdydd**
**Instagram: @mentercaerdydd/**
**E-bost post@mentercaerdydd.cymru**
**Ffôn: /29 2068 9888**



# TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
prosserh@btinternet.com

**Pwyllgor Codi Arian Eisteddfod 2024**

Diolch yn fawr iawn i'r criw bach ond gweithgar yn Nhonyrefail sydd wrthi'n trefnu digwyddiadau yn Nhonyrefail. Cafwyd Parti Calan Gaeaf llwyddiannus i'r plant ac yna ar 11 Tachwedd, codwyd dros £1,500 mewn Bore Coffi a Chrefftau a Noson Rasys. Diwrnod i'w gofio.

Mae nifer o weithgareddau ar y gweill. Croeso i bawb:

6 Chwefror Noson Cyrri a Chwis ym Mouchak, Tonyrefail
11 Chwefror Cymanfa Ganu yng Nghapel Moreia, Gilfach Goch
2 Mawrth Catsgam a Dim Problem yng Nghlwb y Glowyr, Tonyrefail
8 Mawrth Cyngerdd gyda Chôr Merched Tonyerfail a Chôr Merched Taf Elai yn Eglwys Dewi Sant,Tonyrefail



Dyma Ann Owen yn y Parti Calan Gaeaf. Diolch i Ann am blygu pob un o docynnau'r Raffl Fawr.

**Acapela, Pentyrch**
**Mared Williams** – 19 Rhagfyr 2023
Gwefan: acapela.co.uk



# O'r Senedd Heledd Fychan A.S.

Wrth inni nesáu at y Nadolig, mae'n bwysig ein bod ni i gyd yn gwneud ein gorau i gynnig cefnogaeth i'r rhai sy'n ei chael yn anodd, nid yn unig yn ein hardal leol, ond ledled y byd.

Rwy'n siŵr fel fi eich bod wedi cael eich llorio gan y lluniau a'r straeon sy'n dod o Israel a Gaza dros yr wythnosau diwethaf. Mae'r gwrthdaro parhaus wedi arwain at ddioddefaint enfawr a cholled ar y ddwy ochr. Mewn ymateb i'r digwyddiadau hyn, rwyf i, ynghyd â fy nghyd aelodau Senedd o Blaid Cymru, wedi arwain y galwadau am gadoediad ar unwaith, ac am ryddhau gwystlon. Mae'n hanfodol ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i ddod â'r trais hwn i ben a dod o hyd i ddatrysiad heddychlon. Er y gall y gwrthdaro ymddangos yn bell o Gymru, dros y mis diwethaf, rwyf wedi clywed straeon torcalonnus gan drigolion sydd wedi cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y gwrthdaro. Mae eu straeon am golled a thrawma wedi fy nghyffwrdd yn ddwfn ac yn fy atgoffa o'r pwysigrwydd i gyd-sefyll gyda pobl mewn angen bob amser.

Yn nes at adref, un o'r materion rwyf wedi bod yn codi llais amdano yw'r penderfyniad i breifateiddio gweddill y gwasanaethau gofal cartref yn Rhondda Cynon Taf. Er gwaethaf gwrthwynebiad gan undebau a gweithwyr gofal, yn anffodus nid ydym wedi derbyn ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru na'r Cyngor lleol i gadw elw allan o ofal. Mae hyn yn siomedig dros ben. Gobeithio'n fawr y bydd Cyngor Rhondda Cynon Taf yn ail-feddwl, a gwrando ar bobl lleol.

Mater arall y mae nifer o drigolion wedi codi pryderon gyda mi amdano yw'r posibilrwydd o gau dwy feddygfa practis Taff Vale yn Ynys-y-bwl a Chilfynydd. Byddai cau y ddau leoliad yn effeithio'n fawr ar unigolion sy'n ei chael hi'n anodd sicrhau apwyntiadau yn barod, yn enwedig y rhai sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus i gyrraedd canghennau eraill ar gyfer eu hapwyntiadau. Mae gwasanaethau meddygon teulu hygyrch yn hanfodol ar gyfer lles ein cymunedau, a byddaf yn parhau i ymgyrchu i sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad at wasanaethau gofal iechyd yn agos at eu cartrefi. Os nad ydych wedi gwneud yn barod, rwy'n annog trigolion i gysylltu gyda'u cynghorwyr lleol a llofnodi'r ddeiseb i achub y meddygfeydd.

Y Nadolig hwn, bydd fy swyddfa yn casglu rhoddion ar gyfer y banciau bwyd lleol. Os gallwch chi, ystyriwch gyfrannu. Gall cyfnod yr ŵyl fod yn heriol i lawer o bobl yn ein cymuned ac mae pob cyfraniad yn gwneud gwahaniaeth. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu'n barod. Os hoffech chi gyfrannu neu os oes angen cymorth, mae croeso i chi gysylltu â mi drwy e-bost Heledd.Fychan@Senedd.cymru neu drwy ffonio fy swyddfa ar 01443 853214. Rwyf yma i'ch gwasanaethu a'ch helpu.

# Awyddus i Wirfoddoli? Mae gwefan i'ch helpu!

Ydych chi'n meddwl o dro i dro y byddai'n eithaf braf mynd i wirfoddoli yn eich ardal leol? Efallai helpu mewn siop elusen, mewn clwb brecwast cymunedol neu mewn banc bwyd efallai?

Wrth wirfoddoli mi fyddwch yn rhoi rhywbeth yn ôl i'ch bro, ac mae manteision mawr i unigolion sy'n gwirfoddoli hefyd. Yn ôl adroddiad diweddar gan Sefydliad Prydeinig y Galon, roedd 92% o bobl sy'n gwirfoddoli yn dweud ei fod yn llesol i'w iechyd meddwl nhw, a 94% yn dweud bod gwirfoddoli yn golygu eu bod yn teimlo'n llai unig.

Gall fod yn anodd gwybod lle i ddechrau cofiwch, yn enwedig os ydych chi erioed wedi gwirfoddoli o'r blaen. Diolch felly am wefan Gwirfoddoli Cymru. Mae'r wefan hon yn caniatáu i chi gofrestru eich diddordeb mewn gwirfoddoli fel unigolyn. Gallwch rannu manylion am eich lleoliad yn fras, a tua faint o oriau'r wythnos yr hoffech wirfoddoli. Yna, os bydd elusen yn chwilio am rywun, gallant gysylltu gyda chi! Gall sefydliadau gofrestru hefyd gan nodi eu hanghenion, felly gallwch gael golwg i weld os oes elusen leol i chi yn chwilio am help llaw.

Ewch draw heddiw i gael golwg ar y wefan https://volunteering-wales.net/cy i weld os oes unrhyw gyfleoedd sy'n apelio. Gallwch chwilio yn benodol am gyfleoedd gwirfoddoli yn y Gymraeg hefyd. Mae prinder gwirfoddolwyr ledled Cymru ar hyn o bryd felly byddwch yn siŵr o gael croeso cynnes iawn!

***'Yr wyf i yn datganu taw hon yw fy Ewyllys olaf a dirymaf unrhyw Ewyllys flaenorol a wnaed gennyf'***

**Ewyllysiau Cymraeg gan Ruth Ceri Jones LL.B. (Hons)**

Os oes diddordeb gyda chi mewn cael Ewyllys yn yr iaith Gymraeg cysylltwch trwy ebost ar rcerijones@gmail.com

( Aelod o Gymdeithas Ysgrifennwyr Ewyllysiau)

# Colofn Blasus a Iachus

## Eluned Davies-Scott

## Marmite y llysiau?



Gyda'r Nadolig yn prysur agosáu mae'n debyg eich bod yn cychwyn gwneud penderfyniadau am y rhan fwyaf disgwyliedig o dymor yr ŵyl – y cinio Nadolig. Tybed faint ohonoch sy'n bwriadu cael ysgewyll Brwsel fel rhan o'r prif gwrs?

Mae'n debyg fod rhagflaenwyr i ysgewyll Brwsel modern yn cael ei bwyta gan y Rhufeiniaid yn yr hen amser, ond cafodd yr ysgewyll rydyn ni'n gyfarwydd â nhw eu tyfu gyntaf yn ôl yn y 13eg ganrif, yn yr hyn sydd bellach yn Wlad Belg. Credir bod y llysieuyn wedi'i enwi ar ôl prifddinas Gwlad Belg, lle daethant yn gnwd poblogaidd yn yr 16eg ganrif. Dim ond ar ddiwedd y 1800au y daeth ysgewyll yn boblogaidd ym Mhrydain ac rydym yn bwyta mwy ohonynt nag unrhyw wlad arall yn Ewrop gyda'r diwydiant werth tua £650m.



Fodd bynnag, nid oes unrhyw lysieuyn yn rhannu barn yn fwy na'r llysieuyn hwn. A ydych yn un o'r rhai, fel fy ngŵr, a fyddai'n gwneud unrhyw beth i'w hosgoi, neu'n un a fydd yn falch o'u gweld ar eich plât cinio? Os nad ydych yn eu hoffi, mae rheswm gwyddonol am hyn ac mae'n ymwneud â'ch genynnau!


Mae ein tafod wedi'i orchuddio â derbynyddion blas sy'n ein galluogi i adnabod gwahanol chwaeth, a daw'r derbynyddion hyn o enynnau yn ein DNA. Mae un math o'r derbynyddion hyn yn blasu am gemegyn chwerw o'r enw PTC (phenylthiocarbamide). Er nad yw PTC yn bresennol yn ein bwyd, mae'n debyg iawn i gemegau a geir mewn llysiau fel bresych, brocoli, cêl ac ysgewyll Brwsel.

Darganfu'r cemegydd Arthur Fox ym 1931 na allai pawb flasu PTC. Aeth rhywfaint o bowdwr PTC i'r awyr yn ystod un o'i arbrofion a chwynodd cydweithiwr cyfagos iddo fod yr aer yn blasu'n chwerw. Gan na allai Fox ei flasu, roedd yn chwilfrydig ynghylch sut y gellid blasu'r cemegyn hwn gan rai a dim gan eraill. Ar ôl profion pellach, roedd Fox yn gallu rhagweld a all person flasu PTC o ymateb aelodau ei deulu, gan awgrymu cysylltiad â geneteg. Gwyddom erbyn hyn fod dwy ffurf gyffredin o'r genyn arbennig hwn, sef blas chwerw neu ddi-flas. Nid oes gan rai pobl gydbwysedd cyfartal o'r ddau genyn a dim ond rhan o'r chwerwder y maent yn ei flasu. Fodd bynnag, dim ond copïau o'r genyn PTC sy'n blasu'n chwerw sydd gan eraill. Cânt eu hadnabod fel 'supertasers', iddyn nhw mae'r ysgewyll Brwsel yn blasu'n annymunol o chwerw.

Ar ôl i wyddonwyr o'r Iseldiroedd yn y 1990au ddarganfod union yr hyn oedd yn gwneud yr ysgewyll yn chwerw roedd yn bosibl bridio planhigion oedd â chrynodiad is o glwcosinolatau (sy'n gyfrifol am y blas chwerw). Unwaith y canfuwyd y mathau mwyaf addawol, roedd bridwyr planhigion yn gallu cynhyrchu llysiau oedd â blas dymunol a nodweddion eraill fel cnwd uwch ac ymwrthedd rhagorol i glefydau. Dyma ysgewyll Brwsel heddiw; nawr, heb y chwerwder, mae ganddyn nhw flas melys, bron yn gneuog i blesio pawb gwaeth beth fo'u cyfansoddiad genetig.

Mae dulliau coginio gwell a mwy addas na berwi, gan gynnwys stemio, saute, ffrio a tro-ffrio, hefyd wedi helpu i hybu poblogrwydd y llysiau. O saladau i gyris a pizzas, gall ysgewyll Brwsel fod yn addas ar gyfer ystod eang o ryseitiau. I'r rhai sy'n mynnu eu berwi ac yn credu mewn torri croes ynddynt er mwyn iddynt goginio yn fwy gwastad, mae'n debyg fod hyn a llai i'w wneud â thechneg coginio a mwy i'w wneud ag ofergoeliaeth. Yn y Canol Oesoedd, credwyd fod ysbrydion drwg a chythreuliaid yn byw rhwng dail y llysieuyn, a byddent yn mynd i mewn i unrhyw un a oedd yn eu bwyta, gan eu gwneud yn sâl. Byddai'r croestoriad yn gyrru ysbrydion drwg i ffwrdd.

Mae dogn 80g o ysgewyll Brwsel yn cynnwys mwy o fitamin C nag oren, sy'n helpu i gryfhau'r system imiwnedd, yn atgyweirio difrod meinwe ac yn hyrwyddo amsugno haearn. Mae tro-ffrio, grilio torgoch a ffrio aer yn ddulliau coginio sy'n dda ar gyfer cadw'r vitamin. Maent hefyd yn ffynhonnell wych o asid ffolig a beta-caroten. Er mwyn gwneud y gorau o ysgewyll pan fyddant yn rhad, mae'n werth rhoi cynnig ar rai ffyrdd newydd o'u gweini. Yn ddiweddar gwelais lyfr ryseitiau wedi'i neilltuo ar gyfer y llysieuyn yn unig!




Bydd ymweliad byr â gwefannau coginio yn rhoi syniad i chi o'r amrywiaeth o ffyrdd y gellir coginio a gweini ysgewyll. Y cyfuniad mwyaf cyfarwydd yw ychwanegu pancetta, castanwydd a sialóts at ysgewyll wedi'u stemio; mae mêl, marmaled neu galvados hefyd yn cael eu hawgrymu mewn ryseitiau. Mae cnau yn boblogaidd gydag almonau, cnau Ffrengig, pistachios neu gnau Ffrengig wedi'u cynnwys yn arbennig mewn ryseitiau sy'n gwneud ysgewyll amrwd mewn salad arddull Waldorf gydag afalau a seleri. I gael blas mwy sbeislyd, gellir ychwanegu garam masala neu 'nduja' at ysgewyll wedi'u rhostio a gellir gweini bhajis wedi'i wneud o ysgewyll gyda dip mint neu tahini neu hyd yn oed soi Asiaidd a hadau sesame.



Gallech chi roi cynnig ar rai o'r canlynol hefyd-

• stwnsh tebyg i 'Bubble and squeake' wedi'i wneud o ysgewyll Brwsel, tatws, cnau Ffrengig a ffrwythau.
• Fondue ysgewyll cawslyd.
• Ysgewyll torgoch gyda menyn Marmite.
• pad Thai ysgewyll
• Ysgewyll wedi'u llosgi gyda phomgranad a sesame.
• Gratin ysgewyll rhost gyda saws cig moch a chaws.





• Tatws melys a stwnsh ysgewyll gydag wyau wedi'u potsio.

Efallai y dewch chi o hyd i'r penbleth gefais rai blynyddoedd yn ôl pan oedd bocs o lysiau o fferm leol a ddanfonwyd i mi gan fy merch yn cynnwys dau goesyn hael iawn o ysgewyll Brwsel!

Nadolig llawen i chi.



# GILFACH GOCH

*Gohebydd Lleol: Dawn Walters*

**Sul y Cofio**



Trefnwyd gwasanaeth Sul y Cofio, ar y cyd gan y Cyngor Cymuned a'r Cymdeithasfa Cymunedol, o flaen y cofadail yn Parc y Welfare dan arweiniad y Parchedig Ernie Banwell. Roedd dros gant yn bresennol a darparwyd lluniaeth ysgafn wedi'r gwasanaeth yn y pafiliwn. Diolch o galon i Margaret Gough am ei help llaw.



**Pencampwriaeth Dawns Prydain Fawr Blackpool**

Llongyfarchiadau unwaith eto i Esmay a Verity Walters ar eu llwyddiannau. Esmay a'i phartner Eve Harris pencampwyr dawns Lladin dan 14 ac 16 a Verity a'i phartner Eve Bailey pencampwyr dan 10 dawns Lladin a dawns ballroom. Bu'r ddwy hefyd yn is bencampwyr dan 12 a'r ddwy ond yn 9 mlwydd oed.



Esmay ac Eve



Verity ac Eve Dawns Lladin

**Gwylnos Dros Gaza**

Ar nos Fawrth 28 Tachwedd am 5.30 gyferbyn a Chanolfan Feddygol Cwm Gwyrdd fe unwyd y gymuned mewn heddwch er cof am y miloedd o bobl a laddwyd yn Gaza a'r Banc Gorllewinol. Noson emosiynol iawn gyda darlleniadau o farddoniaeth. Darllenwyd rhestr o enwau rhai o'r babanod collodd eu bywydau.

# Ysgol Evan James

**Plant Mewn Angen**

Cawsom wythnos o weithgareddau i godi arian i Blant Mewn Angen. Drwy'r wythnos, cwblhaodd y plant her y "bearpees" ac ar y diwrnod ei hun, gwisgodd y plant ddillad chwaraeon neu ddillad smotiog. Diolch am eich cyfraniadau. Fe godwyd £237 at yr achos. Diolch i'r Senedd a'r Cyngor Iechyd a Lles am drefnu'r wythnos.



**Sesiynau gyda'r Gwasanaeth Tân a'r Heddlu**

Daeth y Gwasanaeth Tân a'r Heddlu i'r ysgol i siarad gyda'n dysgwyr. Roedd y plant wrth eu boddau yn gofyn cwestiynau am eu gwaith a'r uchafbwynt oedd cael cyfle i eistedd yn yr injan dân a defnyddio'r biben ddŵr.




**Llwyddiant ysgubol gyda chystadleuaeth cardiau Nadolig**

Mae artistiaid talentog iawn yn Ysgol Evan James. Roedd cyfle i'r disgyblion gystadlu yng nghystadleuaeth dylunio cerdyn Nadolig gan Amgueddfa Pontypridd a Chyngor Tref Pontypridd. O'r 4 categori, daeth 3 enillydd o'n hysgol. Llongyfarchiadau i Romy Thomas (Dosbarth Bendigeidfran), Petrofa Huw Morgan (Dosbarth Sali Mali) a Cole Jones (Dosbarth Blodeuwedd) am ddod yn gyntaf yn eu categori oed. Cafodd y tri gwobrau arbennig gan gynnwys taleb, medal a chyfle i helpu gyda seremoni goleuo'r goeden Nadolig yn nhref Pontypridd ar Dachwedd 24ain. Llongyfarchiadau hefyd i Cadi Deavall am ddod yn drydydd yng nghystadleuaeth blwyddyn 5 a 6.



**Trip i'r Sinema**

Mwynheuodd disgyblion blwyddyn 3 eu bore yn y sinema yn Nantgarw pan aethant i weld ffilm newydd Nadoligaidd Deian a Loli. Credant fod y ffilm yn wych.



**Y Cyngor Eco**

Cafodd y Cyngor Eco fore hyfryd yn y ganolfan amgylcheddol, Bryn Pica. Maent yn gweithio'n galed i sicrhau bod yr ysgol mor wyrdd ag y bo modd ac maent yn annog pawb i ailgylchu.

**Gwasanaeth Sul y Cofio**

Daeth disgyblion a'u teuluoedd ynghyd ym Mharc Ynysangharad i fynychu gwasanaeth Sul y Cofio. Roedd cyfle i gymryd rhan yn yr orymdaith cyn mynd i'r gwasanaeth. Diolch am y gwahoddiad.

**Wythnos gwrth-fwlio**

Cymerodd y plant ran mewn nifer o weithgareddau diddorol yn ystod wythnos gwrth-fwlio. Gwisgodd pawb sanau od i'r ysgol i ddangos sut mae pawb yn wahanol ac yn unigryw.



**Gweithdy Digidol**

Aeth Arweinwyr Digidol yr ysgol i Ysgol Garth Olwg ar gyfer gweithdy codio y mis hwn. Fe ddysgodd y disgyblion fwy am Scratch a Microbits. Byddant nawr yn helpu staff yr ysgol i ddefnyddio'r rhain.



# Bethlehem, Gwaelod-y-garth

**Trefn yr Oedfaon a'r Ysgol Sul (am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):**

**Mis Rhagfyr 2023:**
3ydd Rhagfyr – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
10 fed Rhagfyr – Oedfa "9 Llith a Charol" (am 5:00 p.m.)
17eg Rhagfyr – Nadolig yr Ysgol Sul
24ain Rhagfyr – DIM OEDFA
25ain Rhagfyr – Oedfa Bore'r Nadolig (am 10:00 a.m.)
31ain Rhagfyr – Oedfa dan ofal Delwyn Sion

**Mis Ionawr 2024:**
7fed Ionawr - Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
14eg Ionawr – Plygain (am 5:00 p.m.)
21ain Ionawr – Oedfa dan ofal y Parchedig Aled Edwards
28ain Ionawr – Oedfa dan ofal Marc John Williams

---oooOOOooo---

Yn y rhifyn diwethaf o Tafod Elái, bu'n rhaid cwtogi peth ar y cynnwys, a bu i'r paragraffau clo yma am weinidogaeth y Parchedig Gareth Evans Rowlands, gael eu hepgor:-

"*Ond ar fore Sul y 14eg o Fai 2006, cyflwynwyd llythyr o'i eiddo yn mynegi ei fwriad i adael y weinidogaeth o ddiwedd Awst ymlaen.*

*Cynhaliwyd cyfarfod o ddiolchgarwch am ei wasanaeth ym mis Gorffennaf 2006.*

*Bu'n rhaid disgwyl hyd at Ionawr 2008 cyn i Weinidog rhan-amser newydd fentro i gysgod y Garth a chynnig arweiniad i gynulleidfa eiddgar Bethlehem am y saith mlynedd a ddilynai.*

*Ond mwy am hynny y tro nesaf!"*

---oooOooo---

A'r Gweinidog hwnnw a fentrodd i'n plith wrth gwrs oedd (ysywaeth, bellach y diweddar) y Parchedig R Alun Evans.

Fe gofnodwyd peth o hanes yr alwad iddo yn y teyrngedau a dalwyd iddo ddydd ei angladd (gweler Tafod Elai Rhifyn 381 Hydref 2023, tud 13/14).

Gair mewn llythyr, dyddiedig y 14eg o Fedi 2007, a anfonodd Ysgrifennydd Bethlehem ar y pryd, Rhys Dafis, i'r aelodau oedd dechrau'r berthynas rhyngom:-

"*Rwy'n taro gair i roi newyddion da ichi ynglŷn â'n hymdrechion i sicrhau Gweinidog i Fethlehem.*

*..., casgliad unfrydol y Pwyllgor oedd y dylem droi at y Parch. R. Alun Evans i gymryd gofal am Bethlehem ar y cyd â Bethel, Caerffili.*

*Gwnaethpwyd ymholiadau, a chael ymateb brwdfrydig ganddo ar unwaith.*

*Roedd yn gyfarfod cynnes a llawn gweledigaeth ymarferol, a chawsom ein llwyr argyhoeddi mai gydag ef y mae'r ffordd ymlaen. Ar yr un pryd, cafwyd cadarnhad gan ddiaconiaid Bethel (Caerffili) o'u cefnogaeth lawn i'w ddymuniad a'u parodrwydd i gytuno trefn 'rannu a chydweithio' hwylus er budd y ddwy Eglwys.*

*Mae hyn yn cynnig agor pennod newydd a chyffrous yn hanes Bethlehem..."*

Dechreuodd ar ei weinidogaeth ym Methlehem ym mis Ionawr 2008, ond yn ôl trefn (anysgrifenedig, prysuraf i ddweud) pobl Bethlehem, bu'n rhaid disgwyl tan y 19eg o Ebrill cyn cynnal y Cyfarfod Sefydlu!

Yn ei eiriau ei hun yng nghylchlythyr y Capel ar y pryd, "Newyddion Bethlehem", rhifyn Gwanwyn 2008, meddai:-

"*Ganol Ebrill y cynhelir y Cwrdd Sefydlu. Bydd yn dda iawn cael croesawu pawb i'r oedfa honno. Ymhlith y rhai sy'n cymryd rhan bydd brodyr y diweddar Rhys Tudur – Geraint yn Ysgrifennydd yr enwad a Alun yn gymydog yng Nghaerdydd, Huw Ethall, cofiannydd R G Berry ac un sy'n "myned yn iau wrth fyned yn hyn", Eifion Powell, cyn Brifathro Coleg yr Annibynwyr ac un y bum yn rhannu stafell gydag ef yng Ngholeg Bala -Bangor. Ac yna ddau o "fois Bala-Bangor" – Elwyn Jones, cyn gydweithiwr yn y BBC a chefnogwr tim peldroed Wrecsam, a Dewi Myrddin Hughes, Llywydd Undeb yr Annibynwyr, a chefnogwr pybyr tim peldroed Abertawe. Yn y fath gwmni does ryfedd bod angen Presbyteriad rhadlon, Cynwil Williams, i fendithio'r cyfan.*"

Roedd y geiriau yna yn cwmpasu'r cyfan amdano – y dyhead i fod yn gynhwysol a chartrefol ymysg cynulleidfa newydd, gan sicrhau'r cyswllt rhwng gorffennol a dyfodol y weinidogaeth yng nghysgod y Garth. Y cwlwm rhwng ei gyfeillion - ym myd crefydd a gwaith; ei ddileit mewn peldroed; a'i synnwyr digrifwch yn gweu'n gelfydd trwy'r cyfan.

Bu i Ifan Roberts ail-fyw peth o brofiadau'r Cyfarfod Sefydlu yn ei gyflwyniad wrth i dymor Alun fel ein Gweinidog ddod i ben:-

Meddai – "*Dyna i chi'r llun hwnnw o'r cyfarfod sefydlu - ar y pnawn Sadwrn y collodd y Swans o ddwy gôl i un yn Yeovil Town.*

*Ar yr un diwrnod, yn y Mericia, roedd y Pab Bened yn pregethu yn Eglwys Gadeiriol Efrog Newydd. Ond drwy lwc, wnaeth hynny ddim denu aelodau Gwaelod -y-garth.*

*Roedd hi'n dŷ llawn yma ar gyfer y cyfarfod sefydlu.*

*O fewn dim wedi hynny, roedd hi'n Gymun Mawr Mis Mai – a golygfa i'w chofio oedd derbyn 13 o aelodau ifanc."*

Wedi ei ymddeoliad, yn un o rifynnau "Gair bach Bethlehem", cylchlythyr y Capel, wele'r dyletswydd, y gwasanaethu, a'r direidi yn amlygu ei hun fel a ganlyn :-

"*Roeddwn i yn y pulpud yn y bore ac yn y gynulleidfa y pnawn. 2013 oedd y flwyddyn, a minnau'n cofnodi - Bethlehem y bore; Hermon Treorci pnawn. Bethlehem y bore, Yr Hendy pnawn. Bethlehem y bore, Jewin pnawn .... Ac ar Chwefror 24ain – Bethlehem y bore, Wembley pnawn [beth ddwedai'r Tadau?].*

*Yn fan'no hefyd fe gafwyd ysbrydoliaeth! Abertawe yn ennill*"

A do, pan ddaeth yn Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn 2014 / 15, fe gyflwynwyd crys peldroed y 'Swans' iddo yn ystod un o'r oedfaon ym Methlehem, gyda'i enw "Evans" a rhif 1 ar ei gefn!

[Ef oedd yr ail weinidog ar Fethlehem i'w ethol i Lywyddiaeth yr Undeb, gan ddilyn y Parchedig R G Berry (a etholwyd yn 1943) i'r swydd. Bu'r cyn-weinidog, y Parchedig O L Roberts, Lerpwl, hefyd yn Llywydd yn 1922.]

"Iesu'r Cymod" oedd teitl ei Anerchiad Lywyddol yng Nghyfarfodydd Blynyddol yr Undeb ym Mhen-y-bont ar Ogwr a meddai:-

"*Diddymu rhaniadau y mae cymod yr Efengyl.*

*Daeth Iesu i'r ddaear i amlygu i ni ffordd o fyw ac o feddwl fyddai'n ein dwyn i berthynas newydd a'n gilydd ac i berthynas newydd a Duw. Casglodd o'i gwmpas griw bach o bobl gyffredin, criw digon gwahanol o ran ei natur.*

*Fe'i hysbrydolodd a'i weledigaeth, ac ymddiriedodd ynddynt.*

*Nid oes gwell ffordd i'r nefoedd na bod yn gymdeithas gariadus, oddefgar a chymodlon..*"

(Trueni na fyddai pobl y Dwyrain Canol (a mannau eraill tros y byd) yn clywed ac yn gwrando ar y geiriau rheini heddiw.)

Aeth bron i flwyddyn o amser wedi ei ymddeoliad cyn i'r eglwys drefnu eu *syrpreis* o gydnabyddiaeth iddo mewn oedfa.

Comisiynwyd Rhys Dafis, un o gyn-ysgrifennydd y capel, i gyfansoddi geiriau, cyfansoddwyd cerddoriaeth gan Ieuan Wyn, enillydd Tlws y Cerddor yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych 2013, a pharatowyd gwaith celf gan y llythrenwr Ieuan Rees o'r Betws, Rhydaman.

Bu Côr Merched Bethlehem yn canu'r cyfansoddiad arobryn yn yr oedfa.

"*Dangosaist i'n gynhaliaeth lawn daioni, Cyflwynaist ni i rin porfeydd y Gair;*

*"Dy alwad ddôi i'n harwain; ninnau'n dilyn At droed y Garth, fan hyn, i gorlan Duw; Buost Alun inni'n fugail da,*"

Ei ddymuniad oedd i unrhyw dysteb adeg ei ymddeoliad gael ei gyfrannu at weithgareddau elusennol ym maes adfer y galon.

A'i sylw yn y cylchlythyr *Newyddion Bethlehem (Rhagfyr 2014)* wrth ymddeol, dan y penawd gogleisiol "Rhoi Tŵls ar y Bar" :-

"*Be mae clerigwr yn ei wneud wrth ddod i ben y dalar? Rhoi ei goler gron ar astell y pulpud? Ymadrodd mwy ystyriol fyddai "a'r wlad a gafodd lonydd.*

*Gan i mi ddechrau pregethu yn Llanbryn-*

Parhad tudalen 13 >

## Bethlehem, Gwaelod-y-garth (Parhad)

*mair yn 1954, dyna drigain mlynedd o draethu. Fe alla' i ddweud yn onest na fu hapusach blynyddoedd na'r saith mlynedd ddiwethaf.*

*Fel arfer, mae dyn yn dechrau trwy fwrw prentisiaeth a chyda phrofiad yn cyrraedd y brig.*

*I mi, mae'n union groes i hynny gan i mi ddechrau ym Mharadwys a gorffen yn y Gwaelod!*

*Ond nid gorffen chwaith gan mai fy mwriad yw parhau f'aelodaeth ym Methlehem cyn belled na bydd hynny'n dramgwydd i'm holynydd. Diolch o galon am eich caredigrwydd. ..... Wela i chi flwyddyn nesa, o'r meinciau cefn.*"

A bu'n ffyddlon ar y meinciau cefn wedi hynny, hyd y diwedd un, gan bregethu ei bregeth olaf ar y 25ain o Fehefin 2023, fel rhan o'r dathliadau i nodi 150 mlynedd ers agor yr adeilad presennol.

Bu farw ar y 20fed o Awst 2023, a chynhaliwyd y gwasanaethau angladdol ar y 4ydd o Fedi yn Nhŷ Cwrdd Bethlehem, ac yn Amlosgfa Caerdydd.

---oooOooo---

A dyna ddod a ni at y presennol!

Er mai'r bwriad gwreiddiol oedd ceisio denu "Arweinydd" rhan-amser i fod a gofal am Bethlehem, Gwaelod-y-garth a Bethel, Caerffili, ac fe gynhwyswyd hysbyseb yn y cylchgrawn "Golwg" ym mis Hydref 2014 i'r perwyl hwnnw, ni fu ymateb ffurfiol bryd hynny.

Yn dilyn hyn, penderfynodd Cwrdd Eglwys Bethlehem yn Chwefror 2016, y dylid ail-ystyried y bwriad yma, ac yn hytrach dylid ceisio sicrhau Arweinydd rhan-amser i Fethlehem yn unig.

Mynegodd Delwyn Sion ei awydd i gael ei ystyried ar gyfer y swyddogaeth, ac fe dderbyniwyd y cais yn ffurfiol mewn Cwrdd Eglwys a gynhaliwyd ar yr 17eg o Orffennaf 2016.

Wedi cyfnod o fyfyrio a pharatoi, gwasanaethodd yn ei oedfa gymun gyntaf fel Arweinydd ar Sul cyntaf mis Rhagfyr 2016:-

*"…'parhad' oedd nôd cychwynnol ei arweiniad. Soniodd bod angen symud ymlaen i greu "Eglwys Newydd" yn ein cymdeithas aml-ffydd, aml-ddiwylliant, ond ei bod yn bwysig bod yr eglwys newydd yn parhau a gwerthoedd yr Hen Gapel.*

*Nododd fod un o`i arwyr sef Nelson Mandella wedi rhoi enw ar gymdeithas aml-ffydd/iaith a diwylliant De Affrica, fe`i galwodd yn Genedl yr Enfys. Beth am i ni ym Methlehem anelu at fod yn Gapel yr Enfys, yn agored i feddylfryd a gwerthoedd a gwirioneddau credoau eraill, yn gyffrous ein hagweddu at Foderniaeth a Gwyddoniaeth, ond gwneud hynny heb ddibrisio`n Cristnogaeth ni - ein ffydd sydd wedi`n cynnal a`n cyfoethogi ers cyhyd."*

Mae'r berthynas rhwng yr Arweinydd a'i braidd wedi datblygu a ffynnu byth ers hynny.

## Darlith ysgubol Catrin Stevens i Ferched y Wawr y Garth
## Y ddeiseb heddwch



Buom yn hynod ffodus i gael cwmni hynaws ac arbenigedd yr hanesydd Catrin Stevens yn ein cyfarfod mis Tachwedd. Cawsom hanes y ddeiseb heddwch anhygoel mewn llun a gair.

Ym 1923, trefnodd menywod Cymru ymgyrch dros heddwch byd-eang wedi i erchyllterau'r Rhyfel Byd Cyntaf ysgogi cenhedlaeth gyfan i sefyll dros heddwch.

Cynigiwyd y dylid lansio ymgyrch i sicrhau bod menywod America'n clywed lleisiau menywod Cymru a chydweithio dros fyd heb ryfel yng nghynhadledd Undeb Cynghrair y Cenhedloedd Cymru yng Ngholeg Prifysgol Aberystwyth.

Llofnododd 390,296 o fenywod Cymru'r ddeiseb, ac o fewn saith mis, aeth Annie Hughes-Griffiths, Mary Ellis, Elined Prys a Gladys Thomas i'r Unol Daleithiau gyda chist dderw â'r ddeiseb ynddi.

Yn ôl y sôn, roedd y ddeiseb yn saith milltir o hyd.

Cafodd ei chyflwyno i fenywod yr Unol Daleithiau gan ddirprwyaeth o fenywod o Gymru yn Efrog Newydd, ac mae'r gist a'r ddeiseb wedi cael eu cadw yn Amgueddfa Genedlaethau Hanes America y Smithsonian yn Washington DC ers hynny.

Bu'r ddirprwyaeth hefyd yn ymweld â Chicago, Salt Lake City, San Fransisco, Los Angeles, Utica, a'r Tŷ Gwyn, lle'u croesawyd gan yr Arlywydd Calvin Coolidge.

Ers 2019, mae Pwyllgor Partneriaeth Hawlio Heddwch wedi bod yn cydweithio gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru i fenthyg y gist a rhai o'r deisebau.

Mae'r gist bellach wedi cyrraedd ei chartref newydd yn Aberystwyth.

Jill Evans ydy cadeirydd grŵp Heddwch Nain/Mam-gu Cymru, grŵp sydd wedi bod yn allweddol wrth ddod â sylw i'r mater.

"Ysbrydolodd y daith heddwch unigryw a rhyfeddol hon gan fenywod yng Nghymru gan mlynedd yn ôl gymaint o bobol ac mae'n parhau i wneud hynny," meddai Jill Evans.

"Mae'r hanes hwn yn perthyn i bob un ohonom. Mae angen inni gofio a rhannu'r stori, i ddathlu ei llwyddiant ond hefyd i ailddatgan ei nod o fyd di-ryfel.

"Sefydlwyd Heddwch Nain/Mam-gu i barhau ymgyrch y menywod hyn dros heddwch."

A rhannu'r stori yn gelfydd wnaeth Catrin gyda ni y p'nawn hwnnw. Diolch o galon Catrin - ac am fynd i'r drafferth i nodi enwau fyddai'n berthnasol i ni yn yr ardal hon!



Delwyn Sion, Gareth Evans Rowlands a'r Parchedig R Alun Evans - y Drindod a fu'n gwasanaethu Bethlehem yn Weinidogion ac Arweinydd ers troad y milflwydd presennol.

---oooOooo---

Wrth i ni nesau at y Nadolig, a gaf i estyn cyfarchion y tymor i bawb ohonoch, a gwneud hynny yn enw Bethlehem, Gwaelod-y-garth. A dymuno Blwyddyn Newydd Dda i chwi i gyd hefyd!

A chofiwch, bydd croeso i chwi ymuno mewn ambell i oedfa Nadoligaidd yn ein plith os bydd gofod yn eich dyddiaduron o hyn hyd at y Plygain ar y 14eg o Ionawr 2024!

---oooOooo---

*Diolch am ganiatad Tafod Elái i grynhoi peth o hanes Bethlehem, Gwaelod-y-garth, fel rhan o ddathliadau 150 mlwydd oed yr adeilad presennol eleni, a'r cyfle i'w rannu gyda chwi'r darllenwyr o fis i fis, dros y misoedd diwethaf yma.*

**HEDDWCH AC UNDOD**
IFAN ROBERTS

"Apêl Heddwch Merched Cymru"
Mae'r gist o 390,296 enwau merched
gludwyd i'r UDA ganrif yn ôl newydd ei
dychwelyd i Gymru."

LLEFARYDD:
*"Gwyn eu byd y tangnefeddwyr: canys hwy a elwir yn blant i Dduw"*

O riniog i riniog,
o blwy i blwy
Nes tyfu o'r rhestr yn fwy ac yn fwy;
Un weddi am heddwch
gan bedwar can mil,
un ddeiseb dros undod rhag difa yr hil.

Sawl mam a sawl modryb,
sawl nain a mam-gu
yn torri eu henwau'n y dyddiau fu;
Yr un, ymhen canrif,
yw'r weddi o hyd -
Cri daerach am heddwch ac undod i'n byd.

Heddwch ac Undod
Cenhedloedd ynghyd
Undod a heddwch
Tangnefedd i'n byd
Heddwch ac undod cenhedloedd ynghyd
Mae'r gri'n dal i atsain rhag rhyfela'n y byd.

Gwyn eu byd, Gwyn eu byd
Mae'r gri'n dal i atsain rhag rhyfela'n y byd.
Gwyn eu byd.

(Un o gerddi'r Gwynfydau a berfformiwyd gan Gôr Bethlehem - tudalen 1)

# Ysgol Pont-Siôn-Norton

**Llusernau**
Diolch i Caysha o Amgueddfa Pontypridd am gynnal gweithdy creu llusernau gyda dosbarth yr Albion. Yna fe gafon nhw gyfle i ymuno yn yr orymdaith drwy'r dre i droi goleuadau Nadolig Pontypridd ymlaen.



**Rygbi**
Bu'r bechgyn a'r merched yn brysur gyda'r rygbi yn ystod mis Tachwedd. Bu chwarae gwych a chystadlu brwd gan bawb. Diolch Mrs Cotter a Miss James em eu hyfforddi.





**Ffair Nadolig**
Cynhaliwyd ffair Nadolig olaf Ysgol Pont-Sion-Norton yn Ysgol Ponty High diwedd mis Tachwedd. Roedd yn achlysur emosiynol iawn, yn enwedig wrth i'r Clwb Perfformio ganu carol PSN 'Gwyrth y Nadolig' am y tro olaf mewn ffair Nadolig. Diolch i'r holl deuluoedd a ffrindiau a ddaeth i gefnogi.



**Cefnogi**
Diolch i bawb am gefnogi ein wythnos gwrth-fwlian drwy wisgo sanau od. Diolch hefyd am gefnogi diwrnod Plant Mewn Angen a Pabi yr ysgol.

**Menter Mel**
Mae dosbarth Yr Albion a dosbarth Y Bwthyn wedi bod yn greadigol iawn yn ddiweddar wrth ddilyn menter Gwenyn y Mel gyda'r cwmni adeiladu ISG. Roedd yn rhaid iddyn nhw droi pot o fel i mewn i arian. Roedd angen llawer o feddwl a chynllunio cyn iddynt greu bisgedi a chacennau mel i'w gwerthu yn y ffair Nadolig. Gwerthwyd pob un cacen a bisgien ac roedd y plant wrth eu boddau!



# Merched y Wawr Cangen Tonysguboriau a'r Cylch

Mae wedi bod yn gyfnod prysur ar y gangen. Cafwyd noson ddifyr iawn gydag Eirian Hughes ym mis Tachwedd. Daeth Eirian a llond lle o 'props' i fynd gyda'i sgwrs am 'O Teliffant i frodio eliffantod'. Cawsom ein tywys yn ôl i hanes diddorol raglenni cynnar ddaeth o stiwdios y BBC yng Nghaerdydd a chyfraniad Eirian i'r gwaith cynhyrchu. Wedi ei chyfnod llwyddiannus gyda'r BBC aeth ymlaen i sefydlu cwmni oedd yn rhoi hyfforddiant a chyngor ar sut i ddefnyddio technoleg newydd cyfrifiadurol; roedd hefyd yn dylunio, gosod a chynhyrchu papurau bro. Bu'n darlithio ym Mhrifysgol Bangor a datblygu ei sgiliau teilwra a gwnïo. Yn ogystal â hyn i gyd, fe fagodd hi dri o blant pan fu hi a'i gwr yn byw yn y gogledd.

Bellach mae Eirian ac Elwyn wedi ail ymgartrefu yn ein hardal. Mae hi wedi cychwyn ei busnes ei hun sy'n gwneud defnydd o'i hystod anhygoel o sgiliau a diddordebau trwy gynhyrchu amrywiaeth o eitemau tecstilau. Dangosodd enghreifftiau amrywiol o'r eitemau mae'n darparu ac fe fydd rai ohonoch wedi gweld a phrynu rhai yn y ffeiriau Nadolig Garth Olwg.

Ar Dachwedd 26ain cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig Rhanbarth y De-Ddwyrain yng Nghapel y Tabernacl Efail Isaf. Roedd hyn yn gyfle da i'n cangen godi arian ar gyfer Eisteddfod 2024. Cafwyd cwmni dros gant o aelodau Ferched y Wawr gyda chyfraniad i'r gwasanaeth gan bob cangen a hefyd aelodau'r Twmiaid y capel, y prifardd Glenys Roberts, Merched y Tab a pharti adrodd Lleisiau Rhymni. Mae'r gangen yn hynod ddiolchgar i bawb wnaeth y gwasanaeth yn un mor llwyddiannus - i Siân Elin Jones ein cyfeilyddes; Eleri Mai Thomas, Swyddog Ieuenctid a Chymunedol Capel y Tabernacl, a'r Twmiaid; Elwyn Hughes am hyfforddi Parti Merched y Tab; swyddogion Capel Y Tabernacl Efail Isaf am ganiatáu i ni ddefnyddio'r capel a'r festri; y rhai fu'n paratoi a gweini'r lluniaeth ac yn gofalu am y parcio; ac i Gyngor Tref Pont-y-clun am roi grant i gefnogi'r digwyddiad. Codwyd £600 ar gyfer cronfa codi arian yr eisteddfod.

Edrychwn ymlaen yn awr at ddathlu'r Nadolig gyda disgyblion Ysgol Llanhari ar 13eg o Ragfyr am 4.30 yng Nghaffi 50 Pontyclun.



Merched y Tab



Parti Rhymni



Parti Pontypridd



Parti Tonysguboriau

# PONTYPRIDD

Gohebwyr: Siân a Mike Ebbsworth

**Merched y Wawr**
Llongyfarchiadau i dîm llwyddiannus y gangen yn y Cwis Cenedlaethol unwaith eto. Yn gyntaf yn y Rhanbarth ac yn agos i'r brig yn genedlaethol. Llawer o ddiolch i Gwerfyl a Menna Thomas a Delyth Davies.



Cafwyd noson llawn hwyl, chwerthin a chystadlu yng Nghanolfan Bowlio Deg Nantgarw ym mis Tachwedd! Fe fydd yr aelodau yn cynnal noson o ddathlu Nadoligaidd ar Ragfyr 14eg yn y Lloft, Clwb y Bont.

Ym mis Ionawr fe ddaw Jên Dafis, ein swyddog datblygu i gynnal noson 'Peintio'r Byd yn Wyrdd' – gan dynnu ein sylw at sut y gallwn fyw yn fwy gwyrdd.

Llongyfarchiadau i'n mam-gu newydd Siân Elin, a chroeso mawr i Jac, mab Geraint a Nathalie.

**Apêl Ardal Pontypridd**
Nos Wener, Tachwedd 17eg, cafwyd noson arbennig yng Nghlwb y Bont o dan y teitl 'Merched Peryglus'. Bu Bethan Mair, Pontarddulais yn holi Haf Elgar, Mari Gwent, Helen Greenwood a Gina Miles ynglyn â'u profiadau o brotestio dros yr iaith. Holwyd Heledd Fychan hefyd ynglŷn â swyddogaeth gwleidydd ym myd protestio. Manteisiodd sawl un ar y cyfle i brynu'r gyfrol 'Merched Peryglus'.




Fe fydd nwyddau newydd ar werth ym mhob digwyddiad i godi arian i'r Eisteddfod yn y dyfodol agos. Cewch gyfle i brynu bag siopa, mwg cerameg, mwg gwersylla a photel ddiod. Pob un â logo'r Eisteddfod Genedlaethol arno!

Ar 24ain o Dachwedd, tra'n cynnau goleuadau Nadolig y dref, cynhaliwyd chwip o noson o gyd-ganu dan ofal mentrus Will Morris Jones a Chôr Cymunedol Pontypridd.

Dewch â thîm o bedwar i'r Cwis Nadolig nos Fercher, Rhagfyr 13eg am 8yh. Tocynnau yn £5 y pen a thocyn raffl a mins pei yn gynwysedig.

Mae Pwyllgor Ynysybwl wedi trefnu cwis yng Nghlwb Rygbi Ynysybwl ar nos Fawrth, Rhagfyr 12fed am 8yh.

**Colled**
Ym mis Hydref, bu farw Dennis Gethin, Tyfica Crescent yn 79 oed ar ôl salwch hir. Yn frodor o Flaendulais, roedd wedi ymgartrefu ym Mhontypridd ers nifer o flynyddoedd. Roedd Dennis yn Brif-Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Taf-Elái ac yn berson amlwg iawn ym myd rygbi lleol a chenedlaethol. Bu'n ysgrifennydd ac yn Llywydd Undeb Rygbi Cymru.

**Clwb Llyfrau**
Ymunwch â'r grŵp yn Marlow House, Trefforest fore Mercher, Rhagfyr 20fed i drafod ambell lyfr dros ddisgled a mins pei. Byddwn yn cwrdd yn y llyfrgell fel arfer ar fore Mercher, Ionawr 17eg am 10:30 yb.

**Croeso**
Llongyfarchiadau i Lois a Huw Wilcox, Caernarfon ar enedigaeth Dafi Huw ym mis Tachwedd. Mae Siân ac Andrew Crowley wrth eu bodd gyda'u hŵyr cyntaf ac mae hen fam-gu Dafi Huw, Mrs Dorothy Morgan, Caerffili wedi gwirioni hefyd.

Mae Tracy ac Andrew Reeves, Graigwen yn croesawu eu hŵyr cyntaf hefyd, sef Osian Llywelyn Hunt, mab i Sarah a Will Hunt, Tonteg. Mae Sarah yn athrawes yn Ysgol Gymraeg Bodringallt.




Gohebydd mis Chwefror fydd Jayne Rees. Cysylltwch â hi â'ch newyddion.

## Medi Gobeithion
## (er cof am Gareth Miles)

Bu'r haf yn oer
a gwres y bysedd a fu'n parhau
â'r chwyldro wedi cilio â'r drafft olaf, mae awelon
di-hidio yn sgubo'r strydoedd a dyddiau diwyd
y wâc o Graigwen i'r swyddfa yn sibrydion
ar balmentydd Taff Street.

A bu Waunfawr ym min haf oriog
yn dal eco camau'r plentyn a redai'n rhydd
cyn dyddiau'r sylweddoliad bod rhaid gorymdeithio
i fynnu rhyddid i'n tafodau.

Ac mae awelon ym Maelor a fu'n gorwynt ym
Mhonty
yn cario'r newydd fod um yn llai yn y llun, a'r llais
dylanwadol yn rhewi yn ennyd
Pont Trefechan.

Yn ddi-eiriau o Landdarog,
yn ehedydd ein dyddiau ar yr orymdaith olaf,
yn gydymaith, daeth y dorf yn ei du i ddal dy law
am un act arall...

Ond o'i dagrau
cododd baner goch dy angerdd
a chyhwfan o'i chwifio
mor fyw ag erioed, am mai arf yw geiriau o hyd
i gario'r neges a blannaist
yn gadarn yn naear dy safiad;
am nad yw llais dramodydd
byth yn trigo,
am nad yw neges nofelydd
byth yn trengi;
am dy fod, Gareth, yma'n dafod i gario
ein gobeithion yn go' bythwyrdd.

Aneirin Karadog



# Ysgol Creigiau

**Twrnamaint Pêl-rwyd**
Llongyfarchiadau i'r Timau Pêl-rwyd am chwarae mor arbennig yn Nhwrnamaint yr Urdd yng Nghanolfan Chwaraeon Talybont. Roedd Mrs Hussey a Mrs Sims yn falch iawn o'u hymdrechion a'u llwyddiant! Rydyn ni'n hynod falch ohonoch chi i gyd - da iawn ferched!



**Clwb Origami**
Y tymor hwn, dechreuodd pedwar disgybl o Flwyddyn 6, Henry, Finlay, Oliver a Gwilym, glwb newydd ar ôl ysgol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 5 a 6. Mae eu Clwb Origami yn llwyddiant ysgubol – mae'r disgyblion sy'n mynychu bob wythnos wrth eu boddau yn creu gwahanol bethau o bapur.



**Diwrnod y Cofio**
Fore Gwener, 10fed o Dachwedd, aethom ni i gyd allan ar yr iard yn yr heulwen i gynnal gwasanaeth Diwrnod y Cofio. Pum disgybl o Flwyddyn 6 oedd yn arwain y gwasanaeth. Eglurodd Conor, Owen, Hedd ac Elis bwysigrwydd Diwrnod y Cofio a chwaraeodd Henry y 'Last Post' yn fendigedig ar y cornet. Yna, arsylwon ni ddau funud o dawelwch. Roedd pob un o'r disgyblion wedi sefyll yn barchus i gofio am eraill - rydym yn falch iawn ohonynt.



Dangos Parch ar Ddiwrnod Y Cofio

**Gŵyl Cerdd Dant 2023**
Ddydd Sadwrn, 11eg o Dachwedd, bu pymtheg disgybl o Ddosbarth 5 a 6 yn cystadlu yn yr Ŵyl Cerdd Dant a gynhaliwyd eleni yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro. Perfformiodd y disgyblion yn



ardderchog. Enillodd y Grŵp Llefaru i gyfeiliant y wobr 1af a daeth y Parti Alaw Werin yn 3ydd. Am gamp anhygoel - rydyn ni i gyd yn falch iawn ohonoch chi!



Parti Alaw Werin

**Ynadon yn y Gymuned**
Ymwelodd chwech o ynadon â disgyblion Blwyddyn 6 i roi cyflwyniad am eu rôl hynod bwysig ynghyd â'r system droseddol a chyfiawnder sifil. Dysgodd y disgyblion am y system gyfreithiol ac am eu llys lleol mewn ffordd hwyliog ac addysgiadol drwy ail-greu ffug dreial ar Seiberfwlio. Wrth iddyn nhw gymryd rhan, fe ddysgon nhw'r negeseuon pwysig am ganlyniadau difrifol Seiberfwlio yn ogystal â'r effaith niweidiol mae'n ei gael ar y dioddefwr.

**Ymweliad Paul Thorburn**
Ymwelodd Paul Thorburn, cyn-chwaraewr Undeb Rygbi Cymru, â'r ysgol i gyflwyno gwasanaethau i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen a disgyblion Cyfnod Allweddol 2. Trafododd bwysigrwydd gwaith tîm, gwydnwch, gweithgareddau corfforol ac allgyrsiol yn ogystal â ffyrdd o oresgyn heriau mewn bywyd. Bu hefyd yn cynnal gweithdai hyfforddi gyda disgyblion Blwyddyn 5 a 6. Roedd y disgyblion wedi mwynhau gwrando ar ei straeon ysbrydoledig.



**Criw Hanfodol**
Mynychodd disgyblion Blwyddyn 6 weithdai Criw Hanfodol. Dull aml-asiantaeth yw Criw Hanfodol o drosglwyddo negeseuon diogelwch i ddisgyblion Blwyddyn 6 cyn iddynt symud ymlaen i addysg uwchradd. Mwynheuodd pob un y gweithgareddau amrywiol.



**Plant Mewn Angen**
Dathlon ni ddiwrnod 'Plant mewn Angen' yn yr ysgol drwy wisgo dillad smotiog a streipïog. Cawsom ddiwrnod llawn hwyl a sbri! Codwyd £535 - gwych! Drwy gydol yr wythnos bu ein Llysgenhadon Chwaraeon yn herio pob disgybl (a staff) i gwblhau Her Bearpee! Yr her oedd gweld faint o Bearpees y gellid eu cwblhau mewn munud. Ein nod oedd cwblhau 1000 Bearpee. Llwyddon ni gwblhau 15,364 o Bearpees erbyn diwedd y dydd ddydd Gwener! Anhygoel! Gwych bawb!



Dosbarth 5



Dosbarth Derbyn



Meithrinfa yn mwynhau Plant Mewn Angen

**Wythnos Agor Eich Llygaid**
Bu disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn ymuno gydag amrywiaeth o weithdai ar-lein fel rhan o Wythnos Agor Eich Llygaid. Dyluniwyd Wythnos Agor Eich Llygaid i danio ac ysbrydoli diddordeb disgyblion mewn ystod eang o swyddi. Ymunodd ein disgyblion Blwyddyn 5 a 6 â sesiynau dan arweiniad GIG Cymru, Wates ac Into Film Cymru. Roedd pawb wedi mwynhau'r sesiynau amrywiol yn fawr.

Parhad tudalen 17 >

## Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

**Digwyddiadau Nadolig – crefftau Nadolig gyda Menter Iaith Rhondda Cynon Taf!**

Cawsom ni lot o hwyl yn cynnal gweithgareddau crefft a helpu rhedeg grotto Siôn Corn yn Ffair Nadolig Garth Olwg diwedd mis Tachwedd. Diolch yn fawr am gael ni'n rhan o'r digwyddiad eto eleni! Buom ni hefyd yn rhan o ddigwyddiadau tref Pontypridd a'r Porth hefyd.

Mae'r Fenter yn gyffrous i fod yn rhan o ddigwyddiadau Nadolig eraill yn Rhondda Cynon Taf dros yr wythnosau nesaf hefyd. Dewch i ddweud Shwmae! Bydd cyfle i'r plant wneud crefftau am ddim gyda ni.

**02.12.23** – Tref Treorci 10yb-5yp
**09.12.23** – Amgueddfa Pontypridd 11yb-3yp

**Addysg Oedolion a Rhaglen Lluosi**

Blwyddyn nesaf bydd y Fenter yn cynnig rhaglen o sesiynau addysg oedolion a chyrsiau fel rhan o'r rhaglen newydd Lluosi. Mae Lluosi a ariennir gan y llywodraeth, trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, i helpu oedolion i wella eu sgiliau rhifedd. Mae sgiliau rhifedd da yn hanfodol yn y gweithle ac yn eich bywyd bob dydd. Gallant helpu i wella cyllid y cartref a chymorth i helpu eich plant gyda'u gwaith cartref. Gall gwella eich sgiliau rhifedd hefyd ddatgloi cyfleoedd gwaith newydd, gan arwain at gyflogau uwch a gwell lles, a bydd yn agor y posibilrwydd i symud ymlaen i lefelau uwch o hyfforddiant. Os oes gyda chi ddiddordeb neu syniadau am y rhaglen cwblhewch ein holiadur ar wefan y Fenter.

**Hysbysebu Digwyddiadau a Grwpiau Cymraeg yn y Sir**

Ydych chi'n trefnu digwyddiad neu weithgaredd Cymraeg yn y sir? Boed yn ddigwyddiad codi arian at yr Eisteddfod neu'n grŵp sy'n cwrdd yn wythnosol, mae Menter Iaith Rhondda Cynon Taf yma i helpu chi hyrwyddo eich digwyddiadau Cymraeg.

Gallwn ni hysbysebu eich digwyddiadau ar dudalennau Beth sy' 'mlaen? ein gwefan a thrwy ein rhestr e-bost a chyfryngau cymdeithasol.

Rydym yn rhannu rhestr o ddigwyddiadau ar ddechrau pob mis felly anfonwch unrhyw ddigwyddiadau erbyn y 25ain o bob mis i gael eu hysbysebu y mis canlynol.

Hysbysebwch eich digwyddiad trwy gwblhau'r ffurflen hysbysebu digwyddiad ar ein gwefan neu e-bostiwch marged@menteriaith.cymru

Gallwch chi danysgrifio i rhestr e-bost Menter Iaith Rhondda Cynon Taf yma i dderbyn ein cylchlythyr digwyddiadau ym misol.

**Swyddi Clybiau Carco**

Hoffech chi ymuno â thîm sy'n darparu gofal ar ôl ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg? Mae Menter Iaith Rhondda Cynon Taf yn edrych am staff ar gyfer ein Clybiau Carco. Rydym yn hysbysebu'r cyfleoedd gwaith isod: Arweinydd Clwb Carco Garth Olwg, Arweinydd Clwb Carco Llanhari, Dirprwy Clwb Carco Garth Olwg, Gweithwyr Chwarae ar gyfer Clybiau Carco Garth Olwg, Llanhari, Llwyncelyn

Os oes diddordeb gyda chi ddysgu mwy am y swyddi, cysylltwch â lisa@menteriaith.cymru

**Dyddiadau i'r Dyddiadur!**
**14.12.23 – Hwyl yr Ŵyl – Canu Carolau ac Alawon Nadolig yn yr Hen Lyfrgell Porth – 11:00-13:00**
**15.12.23 – Cyngerdd COR i godi arian at yr Eisteddfod**

**Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda oddi wrth y tîm i gyd!**

Hoffai'r tîm ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi'r Fenter yn ystod 2023. Edrychwn ymlaen at weld chi eto yn y Flwyddyn Newydd – cyfnod cyffrous i'r sir gyda holl fwrlwm yr Eisteddfod.

Edrychwn ymlaen i weld chi'n fuan a gobeithio gweld ambell i wyneb newydd yn ein gweithgareddau!

Am y newyddion diweddaraf - **Dilynwch ni!**

Gallwch chi danysgrifio i'n rhestr e-bost yma: www.menteriaith.cymru/
**Facebook:** @MenterIaithRhCT
**Twitter:** @MenterIaithRhCT
**Instagram:** @menteriaithrhct
**Gwefan:** www.menteriaith.cymru
**E-bost:** post@menteriaith.cymru
**Ffôn:** 01443 407570

## Eisteddfod Genedlaethol 2024

**Y Raffl Fawr**

Mae'n dda gallu cyhoeddi enwau'r tri enillydd yn y Raffl Fawr:
Gwobr gyntaf – £1,000 Beuno Hughes
Ail wobr – profiad gin David Harris
Trydedd wobr – hampyr Medwin Huws
Llongyfarchiadau iddyn nhw.

**Codi arian**

Mae'r Gronfa Leol yn mynd o nerth i nerth ac wedi hen groesi £70,000 erbyn hyn. Mae gwir fwrlwm ar draws yr ardal. Os ydych chi'n mwynhau Cinio Mawreddog, cadwch 17 Chwefror yn rhydd pan fydd Cinio yng Ngwesty'r Vale.

Rhowch wybod os oes unrhyw beth yr hoffech i fi ei wneud.

**Maes B**

O'r holl luniau sydd wedi'u tynnu, dyma lun sy'n cynrychioli'r rheswm pam rydyn ni mor awyddus i gynnal Eisteddfod. Dyma Owain Jones ac Eve Thomas ar eu ffonau yn Ysgol Llanhari ar 1 Rhagfyr, yn ceisio prynu tocynnau i Faes B. Yn anffodus, collon nhw allan ar y tocynnau Cyw Cynnar, cymaint oedd y galw. Gobeithio bydd ein hieuenctid ni'n heidio i Faes B, ac i'r Maes.



Helen Prosser
(Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Rhondda Cynon Taf)

## Ysgol Creigiau (Parhad)

**Noson Greu Torchau Nadolig**

Trefnodd Cyfeillion yr Ysgol Noson Greu Torchau Nadolig yn neuadd yr ysgol. Roedd hi'n noson lwyddiannus iawn. Diolch o galon i Heledd o Milldail am rannu ei harbenigedd gyda'r grŵp.





# Ysgol Dolau

**Cefnogi Diwrnod Plant Mewn Angen**
Y thema oedd smotiog a chododd yr ysgol cyfanswm o £507.59!! Roedd enfys hyfryd braf ar ddechrau'r diwrnod.





**Profiadau Hydrefol**
Bu Dosbarth 2 yn creu hetiau Hydrefol hyfryd!




**Cynrychioli Cymru**
Mae cyn-ddisgybl, Anya Grunewald wedi cael ei dewis i gynrychioli carfan pêl-droed Cymru. Pob lwc iddi yn ei gêm gyntaf. Rydym yn falch iawn ohonot Anya!





**Rygbi Dolau**
Mae'r bechgyn wedi cael cit newydd a gwisgon nhw'r cit wrth chwarae ym Mharc Chwaraeon USW.
Da iawn bechgyn.

**Clwb Dawns**
Mae clwb dawns wedi cychwyn, ac mae llawer o blant yn mynychu a mwynhau.



**Nadolig**
Mae pawb wedi bod yn ymarfer yn galed iawn ar gyfer ein cyngherddau Nadolig.



**Tîm Rygbi Merched Dolau**
Bu'r tîm yn cystadlu yn nghystadleuaeth rygbi'r Urdd. Diwrnod oer iawn, ond sgiliau cyd-weithio arbennig o dda. Da iawn chi ferched.



**EISTEDDFOD Rhondda Cynon Taf**
3 – 10 Awst 2024
**Codi Hwyl, Codi Calon a Chodi Arian!**

12 Rhagfyr am 8yh. Cwis yng Nghlwb Rygbi Ynysybwl
13 Rhagfyr. Cwis Nadolig Clwb y Bont
13 Rhagfyr. Cyngerdd a Charolau gan Gôr Aberpennar yn Eglwys Santes Margaret, Aberpennar.
15 Rhagfyr. Gwerthiant Grŵp Gweu/ Crosio yn Llyfrgell Aberpennar.
15 Rhagfyr. Cyngerdd CÔR yn Eglwys St Helen, Caerffili am 7.30yh
16 Rhagfyr. Cyngerdd. Côr Cwm Rhondda a Bechgyn Bro Taf, Capel Hermon, Treorci.
17 Rhagfyr. Cyngerdd Côr Godre'r Garth am 7.00yh yng Nghapel Tabernacl, Efail Isaf
30 Rhagfyr. Casgliad Bwced yng ngêm rygbi Pontypridd
31 Rhagfyr. Ras Nos Galan - Rhai aelodau o'r pwyllgorau apêl yn rhedeg i godi arian tuag at yr Eisteddfod.

Dydd Sul, 7 Ionawr 2024, Plygain yn Eglwys Sain Ffagan Trecynon am 2.30yp
12 Ionawr. Clive Harpwood a Geraint Cynan yng Ngarth Olwg am 7.30yh
13 Ionawr. Noson yr Hen Galan, Clwb y Bont
19 Ionawr. Gig 'Calennig' Clwb y Bont
19 Ionawr. Ocsiwn, Neuadd y Pentref, Efail Isaf.
25 Ionawr. Noson Santes Dwynwen yn Amore, Aberdâr
26 Ionawr. Band Lonely Hearts (Caneuon y Beatles) yng Nghlwb Rygbi Treorci.

2 Chwefror. Mei Gwynedd a Band Tŷ Potas yng Nghanolfan Garth Olwg am 7.30yh.
6 Chwefror. Noson Cyri a Chwis ym Mouchak, Tonyrefail
11 Chwefror. Cymanfa Ganu yng Nghapel Moreia, Gilfach Goch
17 Chwefror. Cinio Mawreddog yng Ngwesty'r Vale

2 Mawrth. Catsgam a Dim Problem yng Nghlwb y Glowyr, Tonyrefail
8 Mawrth. Cyngerdd gyda Chôr Merched Tonyrefail a Chôr Merched Taf Elái yn Eglwys Dewi Sant, Tonyrefail

Diolch i Bethan Ford a Menter Iaith am gasglu'r gwybodaeth.

EISTEDDFOD RHONDDA CYNON TAF

# Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

**Prynhawn Hoffi Coffi**

Diolch yn fawr i'r Criw Cymraeg am drefnu prynhawn 'Hoffi Coffi' i gasglu arian tuag at gronfa apêl Eisteddfod Genedlaethol 2024 - ardal Tonyrefail a Gilfach Goch. Manteisiwyd ar y cyfle hefyd i annog rhieni a ffrindiau'r ysgol i ddefnyddio'r Gymraeg drwy gyflwyno geirfa ac ymadroddion defnyddiol. Braf oedd croesawu Helen Prosser sef Llywydd Eisteddfod Rhondda Cynon Taf ac is-gadeirydd y Llywodraethwyr i'r digwyddiad. Casglwyd £125 i'r gronfa ac fe fyddwn yn cynnal digwyddiad cyffelyb yn nhymor y gwanwyn.



**Canolfan Ail-gylchu Bryn Pica**

Treuliodd aelodau'r Cyngor Eco a'r Cyngor Ysgol fore ddiddorol iawn yn dysgu am bwysigrwydd ail gylchu wrth ymweld â Chanolfan Ail-gylchu Bryn Pica. Mae'r ymweliad yn rhan o waith y Cyngor Eco ar hyrwyddo mwy o ailgylchu ymysg disgyblion yr ysgol.



**Cystadleuaeth Trampolîn Rhanbarthol Ysgolion Cymru**



Llongyfarchiadau anferthol i Erin Larkman a ddaeth yn gyntaf yn ei chategori yng Nghystadleuaeth Trampolîn Rhanbarthol Ysgolion Cymru a gynhaliwyd yng Nghanolfan Hamdden Gerddi Soffia yn ddiweddar. Pob llwyddiant iddi i'r dyfodol.

**Wythnos Gwrth-Fwlio**

Cynhaliwyd nifer o weithgareddau yn yr ysgol i nodi wythnos gwrth-fwlio. Trefnodd ein Llysgenhadon Gwych wasanaeth arbennig ar y pwnc – diolch yn fawr iddynt am eu gwaith caled a'u geiriau doeth.



Ein Llysgenhadon Gwych yn cynnal gwasanaeth arbennig i nodi wythnos gwrth-fwlio




Y Dosbarth Derbyn yn dathlu wythnos gwrth-fwlio

**Gweithdai Diogelwch Nwy**

Daeth Wales and West Utilities i gynnal gweithdy ar ddiogelwch nwy gyda phlant Cam Cynnydd 3. Roedd y wybodaeth a rannwyd yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol iawn.



**Diwrnod Plant Mewn Angen**

I godi ymwybyddiaeth o waith elusen 'Plant Mewn Angen' bu aelodau'r Cyngor Ysgol yn ymweld â'r holl ddosbarthiadau i gynnal gwersi arbennig. Fe gasglwyd £220 i'r elusen drwy gasglu cyfraniad am beidio dod i'r ysgol mewn gwisg ysgol.



# Treftadaeth Chwaraeon

Mae corff Treftadaeth Chwaraeon/ Sporting Heritage (www.sportingheritage.org.uk) yn canfasio diddordeb ymhlith pobl a mudiadau'r ardal er mwyn trefnu rhaglen o ddarlithoedd am dreftadaeth chwaraeon ar Faes yr Eisteddfod haf nesaf.

Fydd dim stondin ein hunain ond rydym eisiau trefnu rhaglen o siaradwyr a'u pynciau ar gyfer y mudiadau hynny a fydd â stondinau er mwyn helpu nhw lenwi rhaglen trwy gydol yr Ŵyl .

Hyd yn hyn mae gennym ni - seiclwyr o fri Cwm Cynon, Hanes Clwb Criced Morgannwg â Phontypridd, 'Capten Kyber' - bywgraffiad Ben Williams, arwr Everton y 1930au o Benrhiwceiber.

Tybed, efallai bod yna ddarllenwyr Tafod Elái hoffai siarad am rywbeth ynglŷn â threftadaeth chwaraeon fel rhan o'n rhaglen? Os oes, byddwn i wrth fy modd i glywed oddi wrthynt. Yr unig amodau yw: bydd rhaid iddyn nhw gyflwyno fe yn Gymraeg, bydd rhaid bod cysylltiad â RhCT a bod balans rhwng cenedlau ymhlith y siaradwyr a phynciau'r darlithoedd

Cysylltwch â Russell Todd am wybodaeth bellach.

Russell Todd, Cydlynydd Cymru,
Treftadaeth Chwaraeon.
Ffôn: 07749 279 481

**Sul y Cofio**

Unwaith eto eleni bu rhai o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn cynrychioli'r ysgol yng Ngwasanaeth Sul y Cofio ym Mynwent Trân yn Nhonyrefail. Gosodwyd torch o babi coch ar y gofeb yn y fynwent fel rhan o'r gwasanaeth.



Disgyblion Blwyddyn 6 yn mynychu gwasanaeth Sul y Cofio

## Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

**Diwrnod Plant Mewn Angen**
Diolch i'r holl blant am wisgo eu dillad ei hun er mwyn codi arian tuag at elusen Plant Mewn Angen. Codwyd £719. Diolch o galon i bawb am eu cyfraniadau hael.








**Diwrnod Shwmae Su'mae**
Diolch yn fawr iawn i bawb am eu rhoddion hael tuag at Fanc Bwyd Taf Elai. Daeth staff y Banc Bwyd i'r ysgol yr wythnos hon i gwrdd ag aelodau o Bwyllgor Criw Cymwynasgar Senedd yr Ysgol i gasglu'r cyfraniadau.



**Diwrnod Sylwi Cadarnhaol**
Dathlwyd y digwyddiad yma gyda holl blant a staff yr ysgol yn rhannu sylwadau cadarnhaol â'i gilydd. Rhaid dweud, dim ond sylwadau cadarnhaol sydd gennym ar gyfer y plant fel arfer ta beth. Nodwyd sylwadau'r staff a ffrindiau ar labeli i'w cymryd adref a chadw am byth.






## CREIGIAU

*Gohebydd Lleol:*
*Nia Williams*
*colin.williams@talktalk.net*

**Cartref Newydd**
Clywsom yn ystod yr haf bod Eryl a Stuart Thomas wedi symud tua'r gorllewin! Ar ôl blynyddoedd o wasanaeth i'r gymuned yma - Eryl fel gwarchodwraig plant di-rifedu a Stu roddodd flynyddoedd o wasanaeth i'r Cyngor Cymuned, gwelir eu colli. Dymunwn yn dda iddynt yn eu cartref newydd yn Cwmfelin Mynach ger Llanboidy. Ymddeoliad hir a hapus eich dau!

**Seren y byd cerddorol**
Roedd mor braf clywed Rhodri Brooks ar Radio Cymru yn ddiweddar yn siarad â Georgia Ruth am ei yrfa fel ffotograffydd a cherddor. Mae'n un o nifer fach sy'n chwarae *'pedal steel guitar'* yn y DU. Aelod o'r band Melin Melyn yw Rhodri. Maent i'w clywed yn rheolaidd ar Radio Cymru.
Mae Rhodri a'i wraig Molly, sy'n arlunydd, yn byw yng Nghaerdydd.
Mab Dr. Peter ac Ann Brooks, Maes Cadwgan yw Rhodri; a brawd Dr Dafydd Brooks, ymgynghorydd geriatrig yn ysbytai'r Waun a Llandochau. Gwylier y gofod a phob lwc ar y daith i America!




'Melin Melyn' ar brif lwyfan Gŵyl y Dyn Gwyrdd mis Awst 2023





**Rygbi'r Urdd**
Llongyfarchiadau mawr i dîm rygbi'r ysgol am ennill twrnamaint rygbi 7 bob ochr yr Urdd fis Hydref. Ymlaen â nhw i Aberystwyth fis Mai 2024 ar gyfer y rownd derfynol!



# Ysgol Llanhari

**Diogelwch ar y ffordd**
Cwblhawyd llwyth o weithgareddau diogelwch ar y ffordd ddiwedd mis Tachwedd. Aeth disgyblion am dro gan ymarfer croesi'r ffordd a sylwi ar arwyddion ffordd pwysig o'u cwmpas. Da iawn chi a sicrhewch eich bod yn cofio popeth i chi ddysgu.

**Canu i'r henoed**
Aeth disgyblion dosbarth Cadi Cwningen a Gwion Gwiwer i ganu i'r henoed yn ystod wythnos caredigrwydd. Roedd pawb wrth eu boddau ac maent wedi eu gwahodd nhw nol eto!





**Sanau Od**
Dathlwyd Wythnos Gwrth Fwlio yn yr ysgol gyda'r disgyblion yn gwisgo sanau gwahanol er mwyn dathlu fod pawb yn unigryw. Diolch i chi am gefnogi.

**Plant Mewn Angen**
Diolch i bob un am gefnogi achos Plant Mewn Angen eto eleni. Gwisgodd y disgyblion ddillad eu hunain a mwynhau gweithgareddau amrywiol. Diolch am eich cefnogaeth at yr achos teilwng hwn.

**Gwlad yr iâ**
Mwynheuodd disgyblion hŷn yr ysgol daith i Wlad yr Iâ yn ddiweddar. Gwelsant olygfeydd godidog a chawsant brofiadau anghygoel a bythgofiadwy.





**Cynhadledd COP**
Mynychodd ddisgyblion Pwyllgor Iechyd a Lles gynhadledd COP Cymru yng Nghaerdydd. Cawsant gyfle i gyfweld a Gweinidog Newid hinsawdd, Julie James, a Chomisynydd Plant Cymru, Rocio Cifuentes. Am brofiad i'n disgyblion ni.




**Cerddoriaeth Llanhari**
Braf oedd croesawu dau o aelodau Only Boys Aloud i gynnal gweithdy gyda bechgyn blwyddyn 7 ac 8 yn ddiweddar. Roedd yn gyfle gwych i'r disgyblion ddysgu am dechnegau ymarfer a chwarae gemau hwyl.



Fel rhan o thema 'Cerddoriaeth y Byd', mae disgyblion blwyddyn 9 wedi bod yn ffodus i dderbyn sesiynau blasu Samba gan y cerddor Mr Mark Galozzi-Hibbert. Mae wedi bod yn gyfle gwych iddynt ddysgu am yr offerynnau a pherfformio rhythmau cymhleth fel ensemble. Bydd pob dosbarth wedi cael cyfle i gymryd rhan cyn diwedd y tymor!



Mae'r côr wedi bod yn brysur dros yr wythnosau diwethaf yn paratoi ar gyfer digwyddiadau mis Rhagfyr. Mae'r disgyblion yn edrych ymlaen at berfformio mewn cyngherddau ac at ddiddanu cynulleidfaoedd yn y gymuned leol cyn y Nadolig.



Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol a fu'n perfformio'n ddiweddar yn Neuadd Hoddinott yng Nghanolfan y Mileniwm yn ddiweddar; Elen Edwards, Mali Edwards, Arwen Morris, Kristina Smith, Dafydd Edwards a Daniel Davies. Roedd hwn yn brosiect newydd cyffrous ar gyfer offerynwyr ysgolion Cymraeg y De Ddwyrain. Treuliwyd dau ddiwrnod yn ymarfer darnau a oedd yn cynnwys Pirates of the Caribbean, medli o ganeuon Hamilton, i enwi dim ond rhai. Roedd yn brofiad gwerthfawr i'r disgyblion. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at y perfformiad nesaf.



# Ysgol Garth Olwg

**Yr Adran Gerddoriaeth**
**Cerddorfa Ysgolion De Cymru**

Cafodd offerynwyr Ysgol Garth Olwg dau ddiwrnod gwych wrth fod yn rhan o Gerddorfa Ysgolion Cymraeg De Cymru. Roedd hyn yn brosiect a ddechreuodd llynedd gydag Ysgolion Cymraeg Caerdydd ond cafodd ei ymestyn eleni a braint oedd bod yn rhan. Cafwyd y cyfle i ddysgu darnau o gerddoriaeth Ffilm - Pirates of the Carribean a Star Wars i gerddoriaeth Ramantaidd - Peer Gynt yn ogystal â cherddoriaeth gyfoes Coldplay. Ar ôl diwrnod llawn o ymarfer ym Mhlasmawr, cafwyd diwrnod o ymarfer yn Neuadd Hoddinott yng Nghanolfan y Mileniwm cyn cael y cyfle i berfformio yno ar gyfer y gyngerdd. Roedd hyn wir yn brofiad gwych a hoffwn ddiolch yn fawr i Mr Rhydian Lake am drefnu'r holl brosiect a phleser oedd bod yn rhan.





**Gweithdai Gwasanaeth Cerddoriaeth RhCT**

Dros yr wythnosau diwethaf mae'r disgyblion wedi cael cyfle i fod yn rhan o weithdai cerddorol sy'n cael eu trefnu gan Wasanaeth Cerddoriaeth y Sir. Cafodd y disgyblion y cyfle i fod yn rhan o weithdy Jazz, Telynau, Llinynnol a hefyd y Celfyddydau Perfformio. O ganlyniad i'r rhain mae'r disgyblion wedi bod yn perfformio yn y Theatr yn Nhreorci ac mae'r gwasanaeth yn trefnu cyngerdd i gloi'r tymor ar yr 8fed o Ragfyr. Gwych yw gweld y disgyblion yn mentro a datblygu eu sgiliau ensemble drwy gymryd rhan yn y gweithdai hyn.

**Ffair Nadolig Canolfan Gydol Oes**

I ddechrau'r dathliadau Nadolig cafodd yr Ysgol y cyfle i berfformio yn Ffair Nadolig Canolfan Garth Olwg. Roedd hyn yn ffordd wych o ddechrau dathliadau'r Nadolig a pherfformio o fewn y gymuned. Canodd aelodau'r Côr y clasuron sef Gŵyl y Baban a Hyfryd Ddydd i enwi ychydig a braf oedd clywed y Telynorion yn perfformio yn ogystal. Roeddent wedi perfformio deuawd a thriawd o Fedli Carolau yn ogystal â darnau unawdol.



**Fforwm Cydraddoldeb**
**Dydd y Cofio**

Ar gyfer Dydd y Cofio penderfynodd y Fforwm Cydraddoldeb ei fod yn ddigwyddiad pwysig i'w nodi. Penderfynon greu arddangosfa o babïau gwahanol i godi ymwybyddiaeth. Braf oedd cydweithio fel ysgol gyfan ar gyfer hyn, gyda dosbarthiadau'r Ysgol Isaf yn llwyddo i greu gweithiau celf arbennig ac yr Ysgol Ganol ac Uchaf wedi creu pabïau deniadol. Cafodd hyn eu harddangos yng Nghanolfan Garth Olwg i nodi'r digwyddiad.







**Yr Ysgol Isaf**

**Plant mewn Angen**

Cododd yr ysgol cryn dipyn o arian trwy gefnogi'r achlysur blynyddol Plant Mewn Angen. Gwisgodd y disgyblion ddillad lliwgar i'r ysgol a chynhaliwyd nifer o weithgareddau hwyl yn ystod y dydd fel gemau, peintio wynebau, stondinau losin ac ati.





**Disgo Cymreictod**

Ychydig wythnosau nôl mwynheuodd ddisgyblion yr Ysgol Isaf ddisgo arbennig i ddathlu ein Cymreictod. Diolch yn fawr i Gymdeithas Gymuned Garth Olwg am drefnu noson hwyliog iawn i'r plant.



## Ysgol Garth Olwg (Parhad)

**Llwyddiant tennis**
Llongyfarchiadau mawr i Harper Lee a thîm tennis De Cymru am ennill y wobr efydd yng nghystadleuaeth Cwpan y sir yn Lloegr yn ddiweddar. Rydym yn falch iawn o dy lwyddiant arbennig.



**Taith Gwyddorau Meddygol**
Cafodd dosbarth 13 Gwyddorau Meddygol y cyfle i fynychu taith i labordy histopatholeg Ysbyty Athrofaol Cymru ar yr 17eg o Dachwedd. Roedd yn hynod o ddiddorol i gael gweld yr holl gamau angenrheidiol wrth baratoi sleidiau histolegol o samplau cleifion. Roedden ni'n lwcus iawn cael siarad gyda'r staff i ofyn cwestiynau ac rydyn ni'n ddiolchgar iawn iddyn nhw am eu hamser. Mae hwn wir wedi helpu ni i ddeall beth sy'n mynd ymlaen mewn labordy clinigol. Diolch yn fawr iawn i Tracey o'r ysbyty am ein gwahodd.



**Llwyddiannau Chwaraeon yr Ysgol Ganol**



Llongyfarchiadau i Maise Fowler am ennill y ras 50m dull rhydd a dod yn ail yn y 100m dull rhydd a 50m dull cefn yng nghystadleuaeth nofio Rhondda Cynon Taf.

Llongyfarchiadau i Lowri Phillips a Nel Williams am gael eu dewis i ymuno ag Academi'r FAW.

Llongyfarchiadau i Rowan Carson am ddod yn 1af yng nghystadleuaeth Rhyng-Ysgolion Cymru yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Isla Carson am ddod yn 2ail yng nghystadleuaeth trawsgwlad Ysgolion Morgannwg a'r Cymoedd. Da iawn i chi gyd!

Llongyfarchiadau i Elai Button am ddod yn ail yng nghystadleuaeth British Open BKG Knockdown.



**Llwyddiant mewn Eisteddfodau lleol**
Bu'r ysgol yn cystadlu yn llwyddiannus yn Eisteddfod y Cymoedd ym mis Hydref, gyda'r côr yn ennill y gystadleuaeth categori cynradd, a'r ensemble lleisiol yn ennill yr ail safle. Enillodd y côr hefyd ail wobr yn y categori cynradd yn Eisteddfod y Rhondda ym mis Tachwedd.



## Clwb Rygbi Pentyrch

Roedd Sadwrn cyntaf mis Rhagfyr i fod yn ddiwrnod mawr yng Nghlwb Rygbi Pentyrch gydag ad-uniad y cyn-chwaraewyr wedi ei drefnu a dwy gêm i'w chware yn erbyn yr hen "elyn" - Ffynnon Taf. Ond daeth cwmwl mawr i hofran uwch yr achlysur gyda'r newyddion trist yn ystod yr wythnos am farwolaeth Russell Howell - un o hoelion wyth y clwb a chymeriad hynod o boblogaidd gan bawb. Gwnaeth gyfraniad arbennig i'r gêm a'r gymuned - i dîm y pentre yn asgellwr hynod gystadleuol, cyn gwasanaethu wedyn yn Gadeirydd a Llywydd am gyfnod; yn lleol wedyn yn gynrychiolydd Rhanbarth y Dwyrain ar yr Undeb, ac yn genedlaethol ar ol cael ei ddyrchafu'n aelod o Fwrdd Undeb Rygbi Cymru. Bydd colled enfawr ar ei ôl ac rydyn ni i gyd yn cydymdeimlo'n fawr gyda'r teulu. Bydd yr angladd yn Amlosgfa Glyntaf ar Ragfyr 22ain



Russelll Howell

Yn gwbwl deilwng cafwyd munud o dawelwch cyn dechre'r ddwy gêm, a bydde Russ wrth ei fodd i weld dau dîm Pentyrch yn ennill - 12-5 yr ail dîm, a buddugoliaeth swmpus i'r tîm 1af - 30-3 i symud lan i'r 4ydd safle yn y gynghrair.

Da hefyd gweld llwyddiant i'r tîm Ieuenctid yn y Cwpan - buddugoliaeth arbennig yng Nghwmtwrch yn yr ail rownd, taith i herio Cwins Caerfyrddin sy nawr ar Sadwrn y 9fed.

Ac ar yr ochor gymdeithasol, unwaith eto roedd y noson "Pei a Potsh" flynyddol yn llwyddiant mawr gyda neb llai na Ieuan Evans - cyn gapten Cymru a chyn Gadeirydd yr Undeb yn westai i rannu storie wrth edrych nôl dros ei yrfa, a hefyd rhannu rhai syniade am sefyllfa y gêm gyfoes.



Oes, mae yna fwrlwm yn y clwb - ond hefyd y bwlch amlwg hwnnw ar ôl colli Russ - does neb wedi cyfrannu mwy at y llwyddiant yn holl hanes Clwb Rygbi Pentyrch.



Cyfle i gofio am Russell Howells cyn y gemau yn erbyn Ffynnon Taf

# Cyngerdd Un Seren





Roedd Capel Tabernacl, Efail Isaf yn llawn ar gyfer noson arbennig gyda Delwyn Siôn a Côr Caerdydd.

Cawsom flas ar fywyd a magwraeth Delwyn Siôn yn Ngwm Cynon drwy ei ganeuon gyda chyfeiliant gan Geraint Cynan. Cafwyd gwledd o gytganau Cymreig a Nadoligaidd gan Gôr Caerdydd o dan arweiniad Gwawr Owen a'r Cyfeilydd Dafydd Huw gyda'r unawdwyr Llio Rhys ac Emma Watt.

Ac ar ddiwedd y noson roedd y Twmiaid wedi trefnu paned a chacen yn y Ganolfan. Noson arbennig i godi arian tuag at Eisteddfod 2024.


**Gwledd yr Ŵyl**

**CÔR**

**Arweinydd: Osian Rowlands**
**Cyfeilydd: Jeffrey Howard**
**Gyda Glyndŵr Brass**

**Eglwys Gatholig St Helen, Caerffili**

**Nos Wener, 15 Rhagfyr**
**7.30yh**
**Tocynnau £10 –**
**osian_llyr@hotmail.com**











